Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 19 Chwefror 2014**

Amser:
**09:00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Bethan Davies**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8120
PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk


## Agenda

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2013-2014 (09:00-10:00)

(Tudalennau 1 - 128)
FIN(4)-03-14 (papur 1)
FIN(4)-03-14 (papur 2)

Briff Gwasanaeth Ymchwil

Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid
Lynne Hamilton - Cyfarwyddwr, Cyllid a Materion Masnachol, Llywodraeth Cymru
Jo Salway - Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru

### 3 Bil Drafft Cymru: Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru (10:00-11:00)

(Tudalennau 129 - 143)
FIN(4)-03-14 (papur 3)
Briff Gwasanaeth Ymchwil

Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid
Gareth Morgan - Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Diwygio Ariannol, Llywodraeth

Cymru

## 4 Papurau i'w nodi (11:00) (Tudalennau 144 - 146)

**Comisiwn y Cynulliad: Cyllideb Atodol 2013-14: Llythyr gan Angela Burns AC (12 Chwefror 2014)** (Tudalennau 147 - 148)

**Bil Cymru Drafft: Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru (14 Chwefror 2014)** (Tudalennau 149 - 150)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (11:00)

Eitemau 6, 7, 8 a 9

**(Egwyl 11:00 - 11:10)**

## 6 Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2013-2014: Trafod y dystiolaeth (11:10-11:35)

## 7 Bil Drafft Cymru: Trafod y dystiolaeth (11:35-12:00)

## 8 Y Dull o Graffu ar y Gyllideb: Effeithiolrwydd Pwyllgorau wrth wneud gwaith craffu ar y Gyllideb (12:00-12:15) (Tudalen 151)

FIN(4)-03-14 (papur 4)

## 9 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2014-2015: Adroddiad cynnydd (12:15-12:30) (Tudalennau 152 - 172)

FIN(4)-03-14 (papur 5)

# Cynnig y Gyllideb Atodol 2013-14

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Gweinidog Cyllid*

*Chwefror 2014*

**Cynnig y Gyllideb Atodol**

**Gofynnir i'r Cynulliad gytuno ar y canlynol**

"1. Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2014 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yn unol ag Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

2. Awdurdodir Llywodraeth Cynulliad Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2014 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen honno;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2014, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

3. Er gwaethaf paragraffau 2(a) a (b), caiff yr adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 2), fod yn uwch na'r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, ym mhob rhan o Atodlen 2)-

(a) os bodlonir yr amod cyntaf, yn achos adnoddau heb gynnwys adnoddau cronnus, neu

(b) os bodlonir yr ail amod, yn achos adnoddau cronnus.

4. Yr amod cyntaf yw nad yw cyfanswm yr adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2014 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno.

5. Yr ail amod yw nad yw cyfanswm yr adnoddau cronnus a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2014 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 2 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir ar gyfer pob rhan o'r Atodlen honno.

Comisiwn y Cynulliad

6. Awdurdodir Comisiwn y Cynulliad -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2014 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 1 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2014, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

7. Awdurdodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2014 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 2 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2014, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 2 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Archwilydd Cyffredinol Cymru

8. Awdurdodir Archwilydd Cyffredinol Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2014 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 3 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2014, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn

y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 3 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Manyleb y Categorïau o Adnoddau Cronnus

9. Mae’r categorïau o adnoddau cronnus a restrir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, ac yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 4, yn gategorïau penodedig at ddibenion Adran 120(2)(a) o’r Ddeddf.”

## Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf

### *Gweinidogion Cymru*

| Cwmpas | Adnoddau (£000) | Adnoddau Cronnus (£000) |
|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 5,432,630 | 951,650 |
| Llywodraeth Leol | 3,721,269 | 300 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 203,091 | 0 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 945,829 | 79,661 |
| Addysg a Sgiliau | 2,372,495 | 131,049 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | 388,796 | 357,634 |
| Tai ac Adfywio | 399,978 | 73,400 |
| Diwylliant a Chwaraeon | 136,834 | 5,366 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 328,643 | 561,982 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru** | **13,929,565** | **2,161,042** |

*Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol*

| **Cwmpas** | **Adnoddau (£000)** | **Adnoddau Cronnus (£000)** |
|---|---|---|
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 49,950 | 250 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 3,942 | 6 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 5,431 | 7,944 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol** | **59,323** | **8,200** |

## Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Cyllid adnoddau a chyfalaf i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig; Cyfalaf Difidend Cyhoeddus i Ymddiriedolaethau'r GIG; benthyciadau i Ymddiriedolaethau'r GIG; taliadau am wasanaethau o dan gontract gan gynnwys gwasanaethau deintyddol, offthalmig a fferyllol; gwasanaethau meddygol cyffredinol; cymorth ar gyfer addysg a hyfforddiant; ymchwil a datblygu; gwasanaethau iechyd meddwl; triniaeth ar gyfer clefydau cronig; a mesurau i fynd i'r afael ag Anghydraddoldebau Iechyd; cyllid ar gyfer Cronfa Risg Cymru; cyllid i gefnogi plant a'u teuluoedd, gan gynnwys sefydliadau plant a theuluoedd; Grantiau i gyflenwi'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Chymorth i'r Asiantaeth Safonau Bwyd; cymorth i wasanaethau ar gyfer pobl hŷn ac i wasanaethau cymdeithasol a gofalwyr; gwella gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys ariannu Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE); i Gyngor Gofal Cymru; y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE); y Comisiynydd Pobl Hŷn; a chyfraniadau i gyrff iechyd a gofal cymdeithasol y DU.<br><br>Cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru; cyllid ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a'r Adran Iechyd neu ar eu rhan; gwasanaethau ar gyfer gwella iechyd ac ar gyfer atal salwch, gwneud diagnosis ohono a'i drin; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | **5,432,630** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Llywodraeth Leol**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym meysydd llywodraeth leol a darparu gwasanaethau cyhoeddus a hyrwyddo diogelwch cymunedol. Ariannu awdurdodau unedol llywodraeth leol; comisiynwyr yr heddlu a throseddu; awdurdodau'r gwasanaeth tân ac achub, drwy gyllid grant heb ei neilltuo drwy gyfrwng grant cynnal refeniw, ardrethi annomestig cenedlaethol (NNDR) wedi'u hailddosbarthu ac arian cyfalaf cyffredinol neu ddull ar wahân o ddarparu cyllid adnoddau a chyllid grant cyfalaf at ddiben polisi penodedig sy'n berthnasol i'r meysydd uchod o weithgarwch. Cyllido a noddi cyrff cyhoeddus a sefydliadau anstatudol sydd â swyddogaethau'n ymwneud ag archwilio, rheoleiddio ac arolygu; hyrwyddo a chynrychioli democratiaeth; datblygu perfformiad a rheoli newid; hybu a chynnal safonau ac atebolrwydd (gan gynnwys swyddogaethau llys apêl); cyflawni canlyniadau; a gwella perfformiad mewn perthynas â llywodraeth leol. Cyllid ar gyfer rhaglen, staffio a chostau gweinyddol cyffredinol (gan gynnwys costau prydlesu) yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, noddi Estyn gan gynnwys costau staff a gwariant gweinyddol cyffredinol a dibrisiant ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. Ariannu mewn perthynas â diogelwch a datblygiad cymunedol; gwaith i gefnogi'r lluoedd arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd; gwrthsefyll trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; ac atal pobl ifanc rhag troseddu a gwariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. Arian cyfatebol o dan Flaenoriaeth 4 o Gronfa Gymdeithasol Ewrop; cymorth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio. | **3,721,269** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Cymunedau a Threchu Tlodi**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym maes Cefnogi Cymunedau a Phobl gan gynnwys adfywio a datblygu cymunedau, ariannu cyrff y Trydydd Sector; mentrau Trechu Tlodi; cefnogi Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf; datblygu cymunedol; datblygu cyrff gwirfoddol a gwirfoddoli; cynhwysiant ariannol, gan gynnwys undebau credyd; cynhwysiant digidol; swyddfeydd post; gwiriadau'r Biwro Cofnodion Troseddol; ac ariannu a gweinyddu prosiectau diwygio lles.<br><br>Arian ar gyfer cymorth i blant a'u teuluoedd, gan gynnwys arian ar gyfer Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Comisiynydd Plant Cymru, strategaethau tlodi plant, chwarae, hawliau plant a phobl ifanc, cyfranogi ac eiriolaeth, cyrff plant a theuluoedd, cymorth i awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector preifat at ddibenion gofal plant a chymorth i ofal plant y tu allan i'r ysgol a gofal cofleidiol.<br><br>Arian ar gyfer cefnogi a hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag ariannu rhaglenni ar gyfer cydraddoldeb a chyfle cyfartal; ar gyfer gwella cynhwysiant cymdeithasol a chyfiawnder cymdeithasol; prosiectau a mentrau Polisi Cynllun a Siarter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | **203,091** |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Ar gyfer darparu cyllid adnoddau a chyfalaf i helpu sefydlu, twf, datblygiad a chynaliadwyedd busnes a thwristiaeth yng Nghymru, datblygu a chynnal a chadw trafnidiaeth a seilwaith ac unrhyw wariant cysylltiedig arall, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod sy'n rhoi budd economaidd ehangach i Gymru.<br><br>Cyllid adnoddau a chyfalaf ar gyfer trafnidiaeth ffyrdd, gan gynnwys adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a gwella cefnffyrdd yng Nghymru; darparu gwasanaethau teithio ar y rheilffyrdd a theithio awyr; diogelwch ar y ffyrdd; rheoleiddio croesfannau i gerddwyr a pharcio ar y stryd; ariannu a gweinyddu rhaglenni i awdurdodau lleol a chyrff eraill er mwyn darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau trafnidiaeth gan gynnwys tocynnau teithio rhad; cymorth i hyrwyddo a datblygu cerdded a beicio; a gwariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod.<br><br>Ad-daliadau cyfalaf i'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol. | **945,829** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Addysg a Sgiliau**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Addysg a Sgiliau er mwyn ariannu: y Cyfnod Sylfaen, darparu llaeth mewn ysgolion; datblygu a rheoleiddio'r cwricwlwm a chymwysterau; gwella perfformiad ysgolion; ariannu arolygiadau; trechu dadrithiad; effeithiolrwydd ysgolion; grant amddifadedd disgyblion; arian cyfalaf ac adnoddau ar gyfer datblygu TG at ddibenion dysgu; cymorth i wella safonau; cefnogi Techniquest; y grant gwisg ysgol; gweithgareddau llywodraethwyr ysgolion; cyfalaf i gefnogi'r seilwaith ysgolion a'r seilwaith ôl-16; cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol; hyfforddi, datblygu a chefnogi athrawon; dysgu dwyieithog; arian cyfalaf ac adnoddau ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; cefnogi addysg feddygol i israddedigion; cefnogi uno a chydweithredu yn y sector addysg; darpariaeth adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 gan gynnwys addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith; ymestyn hawliau a llwybrau dysgu 14-19; cefnogi'r Gwasanaeth Ieuenctid; cyllid i ddysgwyr a myfyrwyr gan gynnwys costau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a'r Lwfansau Cynhaliaeth Addysg; gwasanaethau cyngor ar yrfaoedd; gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd; cefnogi mentrau addysg rhyngwladol; ymchwil a gwerthuso addysgol; datblygu sgiliau a dysgu yn y gweithle; dysgu ar gyfer troseddwyr; cymorth i Gomisiynydd y Gymraeg, a phrosiectau sy'n hybu'r Gymraeg; hybu addysg a sgiliau; eitemau cysylltiedig heb fod yn arian parod ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | **2,372,495** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Cyfoeth Naturiol a Bwyd**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Cyfoeth Naturiol a Bwyd gan gynnwys hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; rhoi cyllid i gynorthwyo gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli, eu gwella a'u defnyddio yn sylweddol; rhoi cyllid, cyngor a chymorth gweinyddol i awdurdodau lleol, asiantaethau a chyrff eraill er mwyn hybu, hwyluso a darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau mewn perthynas â Chyfoeth Naturiol a Bwyd; hwyluso, hybu a chyflawni ym meysydd cynaliadwyedd, y newid yn yr hinsawdd ac ansawdd yr amgylchedd; cynorthwyo a hybu cynhyrchu ynni drwy ddulliau carbon isel; effeithlonrwydd ynni, rheoli adnoddau dŵr mewn modd cynaliadwy a gwella ansawdd dŵr; darparu ac ariannu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth, atal llifogydd ac amddiffyn yr arfordir a mesurau rheoli risg; darparu cyllid, cymorth a chyngor sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, tlodi tanwydd, rheoli dŵr a rheoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol; darparu cyllid, cymorth a chyngor sy'n ymwneud â gwastraff a chynaliadwyedd gan gynnwys yr Ardoll Agregau; gwaredu, casglu a rheoli gwastraff, cynlluniau ailgylchu, glanhau strydoedd a chredydau treth tirlenwi; rheoli ymbelydredd, llygredd amgylcheddol, ansawdd yr amgylchedd a llygredd sŵn; hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol busnesau, pobl a lleoedd Cymru; gwaith hybu a chyhoeddusrwydd a gwasanaethau mewn cysylltiad â Chyfoeth Naturiol a Bwyd ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod; hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; cadwraeth; iechyd anifeiliaid a phlanhigion; hadau, plaladdwyr a chnydau GM; iechyd y cyhoedd; iawndal ar gyfer da byw; gweithgarwch ar les anifeiliaid; gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau arbenigol; gweithgarwch i gadw golwg ar glefydau; datblygu technoleg gwybodaeth; arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd; ariannu pwyllgorau ac ymchwiliadau i faterion gwledig ac amgylcheddol; cyhoeddusrwydd; cymorth ar gyfer rheoli tir a mesurau coedwigaeth; gan gynnwys gwariant o dan y Cynllun Datblygu Gwledig; grantiau coetir a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd; gwariant cyfalaf a refeniw gan y Comisiwn Coedwigaeth; ymchwilio i bolisïau materion gwledig a'u gwerthuso a datblygu'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail iddynt; mesurau i liniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr o sector diwydiannau'r tir; ac unrhyw wariant cysylltiedig neu fân gostau gan gynnwys unrhyw wariant cyfreithiol, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod.<br>Gweinyddu a chyflenwi prosiectau a ariennir gan gronfeydd strwythurol yr UE, gwariant yn ymwneud ag Amaethyddiaeth, Datblygu Gwledig, Pysgodfeydd, Olrhain Bwyd ac Anifeiliaid, Coetiroedd a'r amgylchedd morol; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | **388,796** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Tai ac Adfywio**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Dai ac Adfywio gan gynnwys hybu neu wella diwylliant a lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; rhoi cyllid, cyngor a chymorth gweinyddol i awdurdodau lleol, asiantaethau a chyrff eraill er mwyn hybu, hwyluso a darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau mewn perthynas â Thai, Adfywio, Cynllunio a rheoliadau tai; gwella cyflenwad ac ansawdd y tai sydd ar gael ledled Cymru, gan gynnwys safon tai yr awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a gwella'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai; caffael, lesio, datblygu a chynnal a chadw tir ac adeiladau; trosglwyddo stoc tai; cymorth ar gyfer modelau cymunedol cydfuddiannol ac er mwyn meithrin gallu; tai cymdeithasol; cymorth ar gyfer gwaith adfywio ffisegol gan gynnwys ardaloedd adnewyddu tai a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth; cefnogi pobl; atal a mynd i'r afael â digartrefedd; darparu grantiau ar gyfer gwaith addasu a chyfleusterau er mwyn i bobl fedru aros yn eu cartrefi eu hunain; rheoleiddio ac arolygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; polisi adfywio a gweinyddu polisïau a grantiau gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i fusnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru; trosi a gweithredu deddfwriaeth a rhwymedigaethau'r DU a deddfwriaeth a rhwymedigaethau Ewropeaidd a rhyngwladol; gweinyddu a chyflawni prosiectau a ariennir o dan gronfeydd strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd; cynnal ymchwiliadau, ymchwil a gwerthuso; hybu a chyhoeddusrwydd a gwasanaethau; datblygu a monitro rheoliadau, deddfwriaeth, polisi, gweithdrefnau, cyngor technegol a safonau ym maes cynllunio ac adeiladu; comisiynu ymchwil, cyhoeddi adroddiadau a chanllawiau; penderfynu ar apelau a gwaith achos arall, a noddi'r Arolygiaeth Gynllunio; rhoi cyllid a chymorth grant, gan gynnwys y Gronfa Ardoll Agregau, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | **399,978** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Diwylliant a Chwaraeon**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i'w wario ar Ddiwylliant a Chwaraeon, gan gynnwys hybu a gwella diwylliant a lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; darparu arian, cyngor a chymorth gweinyddol i awdurdodau lleol; asiantaethau a chyrff eraill i hybu, hwyluso a chyflenwi ystod o gynlluniau a gwasanaethau mewn cysylltiad â Diwylliant, Chwaraeon, tirwedd a hamdden awyr agored; gweinyddu polisïau a grantiau gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i fusnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru; trawsosod a gweithredu deddfwriaeth a rhwymedigaethau'r DU, Ewrop ac yn rhyngwladol; gweinyddu a chyflenwi prosiectau a ariennir gan gronfeydd strwythurol y GE; cynnal ymchwiliadau ymchwil a gwerthuso; hyrwyddo, cyhoeddusrwydd a gwasanaethau; rhoi cymorth ariannol i gefnogi diwylliant, chwaraeon, y cyfryngau a chyhoeddi, y tirlun a datblygu cyfleusterau ar gyfer hamdden agored a mannau gwyrdd a'u hyrwyddo; a'r amgylchedd hanesyddol gan gynnwys ariannu Amgueddfa Cymru; arian i Lyfrgell Genedlaethol Cymru; arian i Gyngor Celfyddydau Cymru; arian i'r Parciau Cenedlaethol; arian i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru; arian i Chwaraeon Cymru a sefydliadau sy'n hybu chwaraeon a ffyrdd egnïol o fyw ledled Cymru; arian i Gyngor Llyfrau Cymru; arian i gefnogi Cronfa Radio Gymunedol; arian i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyfarwyddiadau polisi i ddosbarthwyr y Loteri; arian i gefnogi amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd nad ydynt yn rhai cenedlaethol, a phrosiectau lleol a chenedlaethol sy'n ceisio hybu ac ehangu mynediad i drysorau diwylliannol; gwarchod, diogelu, cynnal a chyflwyno amgylchedd hanesyddol Cymru er mwyn sicrhau ei fod ar gael i bawb a'i fod yn cael ei ddiogelu'n dda, gan gynnwys gwariant cyfredol a chostau rhedeg cysylltiedig a chostau staff Cadw a gwariant cyfalaf ar gyfer grantiau a chaffael asedau cyfalaf; ariannu Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; unrhyw wariant yn ymwneud â gwarchod, diogelu, cynnal a chyflwyno gweddillion archaeolegol yng Nghymru, henebion yng Nghymru, adeiladau a lleoedd sydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol yng Nghymru a llongddrylliadau hanesyddol yng Nghymru; unrhyw wariant ar gelfyddyd a chrefftau sy'n ymwneud â Pharciau Cenedlaethol Cymru ac ar weithgareddau a phrosiectau diwylliannol sy'n ymwneud â Chymru; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | **136,834** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**<br><br>I'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar wariant sy'n gysylltiedig â gweinyddu a chostau rhedeg gan gynnwys: costau a threuliau staff; costau rhedeg yr ystâd sifil a buddsoddi ynddi; gwariant gweinyddol cyffredinol; gwariant ar TG a chyfathrebu; gwariant ar raglenni gwella busnes; gwariant adnoddau a chyfalaf gweinyddol arall; penodiadau cyhoeddus; galluogi a hybu llywodraeth agored; cefnogi gwaith ymchwil a gwerthuso; hybu lles economaidd, ffisegol, cymdeithasol neu amgylcheddol; rheoli digwyddiadau cyfathrebu corfforaethol mewnol, ynghyd â'r gwaith o gyfathrebu polisïau a chamau gweithredu'r Llywodraeth yn allanol; cyllid ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol, gan gynnwys y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, ac ar gyfer datblygu cyfansoddiadol, gan gynnwys costau unrhyw refferendwm; cynnal digwyddiadau o bwys cenedlaethol; costau ymchwiliadau cyhoeddus; cost tribiwnlysoedd; cyllid i gyrff cyhoeddus ar gyfer sicrhau arbedion effeithlonrwydd; ariannu Gwerth Cymru, cyfnewidcymru a Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru; taliadau i gefnogi datblygu tramor a chysylltiadau tramor; grantiau a chymorth ariannol i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus; cefnogi prosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd; gweinyddu a chyflenwi prosiectau a ariennir gan gronfeydd strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | **328,643** |

## Atodlen 2 – Defnydd o adnoddau cronnus gan Weinidogion Cymru

### Rhan 1: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o dan y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol; incwm mewn perthynas â setliadau hawliadau cyfreithiol; tâl am lety, nwyddau a gwasanaethau i gleifion preifat, cleifion y GIG, awdurdodau lleol ac eraill; ad-daliadau cyllid Buddsoddi i Arbed gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru; incwm oddi wrth Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd, adrannau llywodraeth eraill a'r Undeb Ewropeaidd; cynlluniau creu incwm; Incwm Yswiriant Gwladol gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi; incwm anweithredol drwy werthu tir, adeiladau, cerbydau, offer ac eiddo; ac adennill TAW. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol; gwariant gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig yn prynu neu'n caffael asedau sefydlog; cefnogaeth i ddarparu a gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **951,650** |

**Rhan 2: Llywodraeth Leol**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys arian grant oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd; ad-daliadau ac adennill taliadau grant ac adennill TAW; ffioedd a thaliadau o godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddiol; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; taliadau am gofrestriadau deintyddol a gofal iechyd annibynnol; incwm o secondiadau staff; ad-daliadau benthyciadau i staff; incwm o rentu eiddo; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; incwm o werthiant asedau cyfalaf. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys costau rhedeg, costau gweinyddu cyffredinol a gwariant adnoddau'r Arolygiaethau a Thribiwnlys Prisio Cymru; darparu ymyriadau hyfforddiant i Wasanaeth Cyhoeddus Cymru; gwariant ategol ar gymunedau mwy diogel ac adfywio; talu grantiau i awdurdodau lleol, comisiynwyr yr heddlu a throseddu a chyrff y Trydydd Sector; pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd; ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **300** |

**Rhan 3: Cymunedau a Threchu Tlodi**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus gan gynnwys ad-dalu ac adfer taliadau grant ac adennill TAW; ffioedd a chostau gwasanaethau arolygu a rheoleiddio; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; incwm o secondiadau staff; ad-dalu benthyciadau staff; incwm o werthu asedau cyfalaf. | Talu grantiau i awdurdodau lleol a chyff y Trydydd Sector; pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **0** |

**Rhan 4: Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus ac arian naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd; rhentu eiddo ac incwm cysylltiedig arall; taliadau gwasanaethau busnes; cyfraniadau prosiect gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm o fuddsoddiadau; ad-daliadau grant a chyllid busnes ad-daladwy; incwm o werthu asedau cyfalaf; incwm yn gysylltiedig â gweithgarwch twristiaeth; derbyniadau o astudiaethau trafnidiaeth; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; adennill TAW. | Pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **79,661** |

**Rhan 5: Addysg a Sgiliau**

| ***Colofn 1***<br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm ôl-16 o brosiectau Ewropeaidd, ymchwil a gwerthuso a datblygu sgiliau busnes; breindaliadau cwricwlwm a chymwysterau; adennill Benthyciadau Myfyrwyr; arian o gronfa Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch; gwerthu cyhoeddiadau ac adennill TAW. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys cefnogi prosiectau Ewropeaidd, CQFW, datblygu rhaglenni, datblygu sgiliau busnes, a gwariant cyfredol ar ymchwil a gwerthuso; cefnogi gwariant cyfredol ar y cwricwlwm a chymwysterau a chefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **131,049** |

**Rhan 6: Cyfoeth Naturiol a Bwyd**

| ***Colofn 1*** <br><br> *Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2*** <br><br> *Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd; incwm o'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer coetiroedd; incwm o'r Undeb Ewropeaidd drwy'r Asiantaeth Taliadau Gwledig i gefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig, gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol a chyllid UE ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae incwm y Cynllun Datblygu Gwledig yn cynnwys incwm o fodiwleiddio cymorthdaliadau ffermwyr; incwm o brosiectau ffermydd gwynt; incwm o Fferm Pwllperian neu werthu asedau cyfalaf; adennill grantiau neu setliadau mewn perthynas â thaliadau grant; adennill TAW; incwm o gasglu carcasau anifeiliaid a ledir er mwyn rheoli clefydau ac incwm o'r UE ar gyfer dileu TB buchol; incwm o'r UE yn ymwneud â TSE a BSE; cymorth yr UE ar gyfer cadw gwenyn; incwm o adennill grantiau gan awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau eraill yn y sector preifat a chyhoeddus; incwm o drwyddedau morol; cosbau ariannol sifil sy'n gysylltiedig â chynlluniau masnachu allyriadau; Trwyddedau Deddf Diogelu'r Amgylchedd a Bwyd, Trwyddedau Treillio, incwm OFWAT mewn perthynas â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, derbyniadau o werthu asedau; cyllid gan adrannau eraill y llywodraeth ganolog ac adennill TAW. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys iawndal am gael gwared â da byw sy'n dioddef o glefydau; gwariant yn gysylltiedig â dileu TB buchol; a gwariant ar hybu cig o Gymru; gwariant yn gysylltiedig â Fferm Pwllperian; gwariant yn gysylltiedig â TSE a BSE a gweithgareddau datganoledig perthnasol sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid; gwariant yn ymwneud â'r rhaglen iechyd gwenyn; gwariant ar wariant cyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru; a thaliadau grant, cynlluniau a ariennir yn rhannol gan adrannau llywodraeth eraill; incwm ardoll ar gyfer hybu cig Cymreig; incwm o reoleiddio a gweithgareddau gorfodi pysgodfeydd. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **357,634** |

**Rhan 7: Tai ac Adfywio**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm a ddaw o ad-daliadau'r Grant Tai Cymdeithasol; adennill grantiau gan awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat; incwm rhenti; derbyniadau o werthu asedau, cyllid gan adrannau llywodraeth eraill ac adennill TAW; arian drwy gynlluniau cyllido Ewropeaidd a chynlluniau cyllido eraill; adennill grantiau neu setliadau mewn perthynas â thaliadau grant; grantiau ad-hoc o ffynonellau eraill; ac adennill TAW. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant, taliadau grant a chynlluniau Tai Cymdeithasol a gefnogir yn rhannol gan adrannau llywodraeth eraill, gwariant ar gynlluniau Adfywio; a phob prosiect a noddir gan Ewrop. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **73,400** |

**Rhan 8: Diwylliant a Chwaraeon**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r anodau cronnus yn cynnwys incwm Cadw o godi tâl mynediad ar safleoedd Cadw, gwerthiant cofroddion, cyhoeddiadau, (gan gynnwys gwerthu bagiau siopa untro), ffioedd ar gyfer gwasanaethau cynghori arbenigol a thâl aelodaeth Etifeddiaeth y Cymry; incwm arall gan gynnwys incwm o ddigwyddiadau, gwaith ffilmio, ffotograffiaeth ar safleoedd, parcio ceir a chymynroddion; adennill grant neu setliadau mewn perthynas â thaliadau grant; grantiau ad-hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant Cadw ar archaeoleg, rhestru henebion, grantiau ar gyfer adeiladau hanesyddol a henebion, gofalu am yr henebion sydd o dan ei ofal a'u cyflwyno, a gwariant cyfredol/costau rhedeg (gan gynnwys staff); gwariant ar bob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd; defnyddio elw yn sgil gwerthu bagiau siopa untro ar gyfer cynlluniau at ddibenion elusennol; a gwariant cyfredol/costau rhedeg y Comisiwn Brenhinol (gan gynnwys staff). |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **5,366** |

**Rhan 9: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o: secondio staff a ffioedd staff; ad-daliadau benthyciadau i staff; ad-daliadau didyniadau statudol o dan PAYE; adennill TAW; gwerthu tir ac adeiladau; is-osod eiddo; gwerthu asedau gweinyddol; gwerthu nwyddau a gwasanaethau; incwm gweinyddol; incwm o wasanaethau TGCh a ddarperir; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; adennill y costau a rennir â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus; derbyniadau o grantiau adenilladwy gan gynnwys derbyniadau Buddsoddi i Arbed; a chyllid (boed uniongyrchol neu anuniongyrchol) oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys ariannu costau rhedeg a gwariant gweinyddol cyffredinol, cefnogi gwariant cyfalaf ar sylfaen ystadau ac asedau Llywodraeth y Cynulliad a phob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **561,982** |

## Atodlen 3 – Gwariant Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (heb gynnwys adnoddau cronnus)

### Rhan 1 – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau i'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaethau Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol a gwariant yn ymwneud â darpariaeth pensiynau Aelodau'r Cynulliad. | **49,950** |

### Rhan 2 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu swyddfa'r Ombwdsmon; taliadau i gymdeithas Ombwdsmyn Prydain ac Iwerddon; taliadau i'r Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol; ac eitemau cysylltiedig nad ydynt yn arian parod. | **3,942** |

### Rhan 3 – Archwilydd Cyffredinol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyflawni swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr sydd wedi'u penodi gan lywodraeth leol, ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | **5,431** |

## Atodlen 4 – Defnydd o Adnoddau Cronnus gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

### Rhan 1 – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o werthu asesau sefydlog ac incwm cyfalaf arall; incwm rhenti; rhoddion; cymorth grant; ailgodi tâl; incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill. | I'w defnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog ac i'w defnyddio i dalu costau gweinyddol y Cynulliad. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **250** |

### Rhan 2 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill. | I'w defnyddio ar wasanaethau cysylltiedig ac ar weinyddu gwasanaeth yr Ombwdsmon. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **6** |

## Rhan 3 – Archwilydd Cyffredinol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig (heb gynnwys gwaith archwilio, asesu ac arolygu llywodraeth leol); adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; amryfal incwm o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; adennill costau staff wedi'u secondio; ad-daliadau benthyciadau i staff; adennill taliadau lesio ceir; a llog a dderbynnir ar ffioedd y fantolen waith. | I'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **7,944** |

# Atodlen 5: Cysoni Adnoddau ag Arian Parod – 2013-14 (£000)

***Tabl 1: Y Cysoniad Adnoddau ac Arian ar gyfer 2013-14 yng Nghynnig Mehefin 2013 ynghylch y Gyllideb Atodol (£000)***

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | 12,797,835 | 49,200 | 3,929 | 5,224 |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | 462,628 | 750 | 13 | 20 |
| Addasiadau: | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Taliadau cyfalaf | -119,100 | -4,000 | -109 | 0 |
| Amhariadau | -63,204 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -62,953 | -500 | -40 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 0 | 300 | 25 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 100 | 242 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **13,015,206** | **45,850** | **4,060** | **5,244** |

***Tabl 2: Newidiadau i'ri Cysonad Adnoddau ag arian parod a gynhwysir yn y Cynnig hwn ynghylch y Gyllideb Atodol (£000)***

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | 584,980 | 0 | -27 | 187 |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | 84,122 | 0 | 27 | 0 |
| Addasiadau: | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Taliadau cyfalaf | -21,105 | 0 | 0 | 0 |
| Amhariadau | -378,399 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -9,922 | -700 | 0 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 122,411 | 700 | 0 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **382,087** | **0** | **0** | **187** |

***Tabl 3: Cysoniad Adnoddau ag arian parod a gynhwysir yn y Cynnig hwn ynghylch y Gyllideb Atodol (£000)***

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | 13,382,815 | 49,200 | 3,902 | 5,411 |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | 546,750 | 750 | 40 | 20 |
| Addasiadau: | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Taliadau cyfalaf | -140,205 | -4,000 | -109 | 0 |
| Amhariadau | -441,603 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -72,875 | -1,200 | -40 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn dyledwyr/credydwyr | 122,411 | 1,000 | 25 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 100 | 242 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **13,397,293** | **45,850** | **4,060** | **5,431** |

**Nodiadau:**

1. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn yn cydymffurfio ag Adran 125(1)(c) a 126(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf"). Mae'r Adran hon yn pennu bod yn rhaid, er mwyn awdurdodi'r cynnig, gael datganiad sy'n awdurdodi "the amount which may be paid out of the Welsh Consolidated Fund in the financial year to the relevant persons, or for use pursuant to a relevant enactment, for the purposes so specified". Gwneir y taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru mewn arian parod, felly mae'r tabl hwn yn dangos y gofynion perthnasol o ran arian parod i gefnogi'r adnoddau y gofynnir amdanynt i gefnogi Atodlen 1 i 4, sy'n rhestru'r dibenion perthnasol y gellir defnyddio adnoddau ar eu cyfer.

2. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn hefyd yn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.28(v), sy'n pennu bod yn rhaid i gynnig y gyllideb gynnwys cysoniad o'r adnoddau sydd i'w hawdurdodi o dan Adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf â'r symiau sydd i'w hawdurdodi i'w talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 125(c) o'r Ddeddf.

3. Cyflwynir y tablau hyn o dan Adran 126 o'r Ddeddf a Rheol Sefydlog 20.31 yn dangos amrywiadau i'r adnoddau a ddyrennir yng Nghynnig y Gylideb Flynyddol a'r symiau i'w talu o Gronfa Gyfunol Cymru.

.

# Atodlen 6: Cysoni adnoddau y gofynnir amdanynt yn y Cynnig ynghylch y gyllideb â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Bloc Cymru ar gyfer 2013-14

***Tabl 1: Y Cysoniad rhwng yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig Mehefin 2013 ynghylch y Gellideb Atodol â'r adnoddau a ryddhawyd y Trysorlys ar gyfer Cymru (£000)***

| | **2013-14 (£000)** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 12,824,771 | 198,498 | -26,936 | 264,130 | 13,260,463 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 48,700 | 750 | 500 | 0 | 49,950 |
| - Ombwdsmon | 4,131 | 13 | -202 | 0 | 3,942 |
| - Archwilydd Cyffredinol | 5,224 | 20 | 0 | 0 | 5,244 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **12,882,826** | **199,281** | **-26,638** | **264,130** | **13,319,599** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a Byrddau Iechyd Lleol | 176,440 | 0 | 79,630 | 0 | 256,070 |
| (ii) Grantiau | -935,863 | 935,863 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 88,800 | 0 | 0 | 88,800 |
| (iv) Arall | 1,917,377 | 0 | 0 | 0 | 1,917,377 |
| **Cyfanswm yr addasiadau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **1,157,954** | **1,024,663** | **79,630** | **0** | **2,262,247** |
| - Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 2,423 | 0 | 0 | 0 | 2,423 |
| - Swyddfa Cymru | 6,132 | 724 | 0 | 0 | 6,856 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | 144,491 | 80,160 | 0 | 0 | 224,651 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **14,193,826** | **1,304,828** | **52,992** | **264,130** | **15,815,776** |

***Tabl 2: Newidiadau i'r cysoniad rhwng yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig Mehefin 2013y Gyllideb Atodol â'r adnoddau a ryddhawyd gan y Trysorlys ar gyfer Cymru (£000)***

| | 2013-14 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 534,908 | 71,179 | 50,072 | 12,943 | 669,102 |
| - Comisiwn y Cynulliad | -700 | 0 | 700 | 0 | 0 |
| - Ombwdsmon | -27 | 27 | 0 | 0 | 0 |
| - Archwilydd Cyffredinol | 187 | 0 | 0 | 0 | 187 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **534,368** | **71,206** | **50,772** | **12,943** | **669,289** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a Byrddau Iechyd Lleol | 3,615 | 0 | 22,046 | 0 | 25,661 |
| (ii) Grantiau | -46,778 | 46,778 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (iv) Arall | -36,853 | -14,650 | 0 | 0 | -51,503 |
| **Cyfanswm yr addasiadau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **-80,016** | **32,128** | **22,046** | **0** | **-25,842** |
| - Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Swyddfa Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | -42,632 | -72,411 | 0 | 0 | -115,043 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **411,720** | **30,923** | **72,818** | **12,943** | **528,404** |

*Tabl 3: Cysoni'r Adnoddau y Gofynnir amdanynt yn y Gyllideb Atodol hon*

| | 2013-14 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Adnoddau** | **DEL Cyfalaf** | **AME Adnoddau** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 13,359,679 | 269,677 | 23,136 | 277,073 | 13,929,565 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 48,000 | 750 | 1,200 | 0 | 49,950 |
| - Ombwdsmon | 4,104 | 40 | -202 | 0 | 3,942 |
| - Archwilydd Cyffredinol | 5,411 | 20 | 0 | 0 | 5,431 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **13,417,194** | **270,487** | **24,134** | **277,073** | **13,988,888** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a Byrddau Iechyd Lleol | 180,055 | 0 | 101,676 | 0 | 281,731 |
| (ii) Grantiau | -982,641 | 982,641 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 88,800 | 0 | 0 | 88,800 |
| (iv) Arall | 1,880,524 | -14,650 | 0 | 0 | 1,865,874 |
| **Cyfanswm yr addasiadau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol** | **1,077,938** | **1,056,791** | **101,676** | **0** | **2,236,405** |
| - Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 2,423 | 0 | 0 | 0 | 2,423 |
| - Swyddfa Cymru | 6,132 | 724 | 0 | 0 | 6,856 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | 101,859 | 7,749 | 0 | 0 | 109,608 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **14,605,546** | **1,335,751** | **125,810** | **277,073** | **16,344,180** |

**Nodiadau:**

1. Mae cyfanswm gofyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru am adnoddau yn gyfwerth â chyfanswm y dyraniadau a gynhwyswyd yn y Cwmpasau yn Atodlen 1.

2. Dywed Rheol Sefydlog 20.28(ii) y dylai cynnig y gyllideb flynyddol gynnwys yr adnoddau y mae'r Trysorlys yn cytuno arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymdrin â hi. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

3. Dywed Rheol Sefydlog 20.28(iii) fod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gynnwys cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau sydd i'w hawdurdodi i'w defnyddio yng nghynnig y gyllideb. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

4. Mae'r atodlenni uchod yn dangos amrywiadau a awdurdodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan Adran 126 o'r Ddeddf a Rheol Sefydlog 20.31.

5. Dyma'r taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru:

| **Eitem** | **2013-14 £000** |
|---|---|
| Taliadau i'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol | 1,686 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd | 239 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Ombwdsmon | 191 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Archwilydd Cyffredinol | 194 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Comisiynydd Safonau | 21 |
| Incwm Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | -1,020,000 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethaol sy'n Daladwy | 1,020,000 |
| Costau Etholiad | 92 |
| **Cyfanswm** | **2,423** |

## Atodlen 7: Cysoni'r llif arian parod i Gronfa Gyfunol Cymru â'r arian parod y gofynnir amdano yng Nghynnig y Gyllideb (£000)

| | Darpariaeth Flaenorol 2013-14 | Newidiadau | Darpariaeth Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|
| **Amcangyfrif o'r symiau net i'w talu i Weinidogion Cymru:** | | | |
| Grant i'w dalu gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 (1) | 13,226,657 | 255,997 | 13,482,654 |
| Taliadau gan Adrannau Llywodraeth eraill | 959,333 | -48,853 | 910,480 |
| Taliadau o ffynonellau eraill | 1,568,910 | 701,652 | 2,270,562 |
| **Amcangyfrif o'r symiau i'w talu i Weinidogion Cymru** | **15,754,900** | **908,796** | **16,663,696** |
| Llai y symiau a awdurdodwyd i'w cadw gan Weinidogion Cymru | -1,584,243 | -576,799 | -2,161,042 |
| Llai y symiau i'w cadw yng Nghronfa Gyfunol Cymru | -944,000 | -45,077 | -989,077 |
| **Symiau sydd ar gael i'w dyrannu o Gronfa Gyfunol Cymru** | **13,226,657** | **286,920** | **13,513,577** |
| Dosbarthwyd fel a ganlyn: | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 13,015,206 | 382,087 | 13,397,293 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 45,850 | 0 | 45,850 |
| - Ombwdsmon | 4,060 | 0 | 4,060 |
| - Archwilydd Cyffredinol | 5,244 | 187 | 5,431 |
| **Arian a ryddheir o Gronfa Gyfunol Cymru yn y Cynnig** | **13,070,360** | **382,274** | **13,452,634** |
| *Plws:* | | | |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 2,423 | 0 | 2,423 |
| Cronfeydd heb eu clustnodi | 153,874 | -95,354 | 58,520 |
| **Amcangyfrif o Gyfanswm y Taliadau** | **13,226,657** | **286,920** | **13,513,577** |

**Nodiadau:**

1. Mae Adran 125(3) o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gael ei ategu gan ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidogion, yn dangos:

   i. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan Adran 118(1);

ii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol gan Weinidogion y Goron ac adrannau'r llywodraeth; a
iii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol heblaw gan Weinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth.

2. Mae'r atodlen uchod yn dangos amrywiadau yn y symiau hyn fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.31

**Chwefror 2014**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Cyllideb Atodol 2013-2014

Nodyn Esboniadol





Chwefror 2014

ISBN Digidol 978 1 4734 0864 7
© Hawlfraint y Goron 2014
WG20757

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 2
2. Dyraniadau o Gronfeydd wrth Gefn ..... 8
3. Newid Allweddol yn y Gyllideb Atodol ..... 12
4. System Cyfnewid Cyllidebau ..... 17
5. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ..... 18
6. Llywodraeth Leol ..... 26
7. Cymunedau a Threchu Tlodi ..... 29
8. Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ..... 32
9. Addysg a Sgiliau ..... 38
10. Cyfoeth Naturiol a Bwyd ..... 44
11. Tai ac Adfywio ..... 54
12. Diwylliant a Chwaraeon ..... 59
13. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ..... 63

Atodiad A – Cysoni Cyllideb Bloc Cymru a'r Dyraniadau Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb ..... 70

Atodiad B – Dyraniadau Rheolaidd o'r Cronfeydd wrth Gefn ..... 74

Atodiad C – Geirfa ..... 75


Dylid anfon ymholiadau am gynnwys y ddogfen hon i:

wag-en@mailuk.custhelp.com

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Heddiw, gosododd Llywodraeth Cymru'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn diwygio'r Gyllideb Atodol flaenorol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 16 Gorffennaf 2013.

**1.2** Y prif newid a adlewyrchir yn y Gyllideb Atodol hon yw ail-flaenoriaethu adnoddau i reoli gwasgfeydd ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad i reolaeth ariannol ofalus, mae Adrannau Llywodraeth Cymru wedi nodi £90.1m o arian Adnoddau Cyllidol, i helpu i reoli pwysau mewn meysydd eraill.

**1.3** Mae'r Gyllideb Atodol hon hefyd yn adlewyrchu ailflaenoriaethau o fewn portffolios, trosglwyddiadau cyllidebol rhwng portffolios ac yn gwneud nifer o ddyraniadau o Gronfeydd wrth Gefn. Mae addasiadau hefyd wedi cael eu gwneud i Gyllideb DEL Cymru i adlewyrchu trosglwyddiadau gydag Adrannau Llywodraeth y DU ac effaith Datganiad Llywodraeth y DU yn yr Hydref, a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr 2013.

**1.4** Mae’r Gyllideb Atodol hon hefyd yn gwneud addasiad sy’n golygu cynnydd o £348.7m yn Incwm Cwmpas Llywodraeth Cymru, i ddarparu ar gyfer yr arian a gafwyd o’r UE i’r MEG Cyfoeth Naturiol a Bwyd mewn perthynas â’r Cynllun Datblygu Gwledig a Chynlluniau Cefnogi’r Farchnad.

**1.5** Crynhoir y newidiadau a gynigir yn y Gyllideb Atodol hon yn Nhablau 1.1 i 1.4. Mae manylion pellach ar gael yn y Penodau Adrannol.

**1.6** Mae’r ddogfen hon yn ategu’r tablau Camau Gweithredu manwl sydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

**1.7** Yn Atodiad B, darperir cysoniad ar wahân sy'n dangos goblygiadau cylchol y dyraniadau sy’n cael eu gwneud o Gronfeydd wrth Gefn yn y Gyllideb

Atodol hon. Mae’r dyraniadau hyn eisoes wedi cael eu hadlewyrchu yng Nghyllideb Derfynol 2014-15.

### Tabl 1.1 – Dyraniad DEL Cymru – Cyllideb Atodol

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Cyllideb[1] 2013-14** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddiwygiedig 2013-14** |
| **Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 6,182,203 | 199,915 | 6,382,118 |
| Llywodraeth Leol | | 4,737,828 | -9,744 | 4,728,084 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | | 212,006 | -8,915 | 203,091 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | | 852,609 | 50,796 | 903,405 |
| Addysg a Sgiliau | | 1,860,792 | 309,699 | 2,170,491 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | | 413,902 | -6,910 | 406,992 |
| Tai ac Adfywio | | 465,930 | 38,388 | 504,318 |
| Diwylliant a Chwaraeon | | 139,722 | 380 | 140,102 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 342,672 | -15,410 | 327,262 |
| **Cyfanswm a Ddyrennir i Adrannau Llywodraeth Cymru** | | **15,207,664** | **558,199** | **15,765,863** |
| Cronfeydd Adnoddau Wrth Gefn | DEL Adnoddau Cyllidol | 73,714 | -22,943 | 50,771 |
| | DEL Adnoddau Anghyllidol | 70,777 | -19,689 | 51,088 |
| Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn | | 80,160 | -72,411 | 7,749 |
| Comisiwn y Cynulliad | | 49,450 | -700 | 48,750 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | | 5,244 | 187 | 5,431 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | 4,144 | 0 | 4,144 |
| Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 645 | 0 | 645 |
| **Cyfanswm Gwariant o fewn Cyllideb DEL Cymru** | | **15,491,798** | **442,643** | **15,934,441** |

[1] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.

## Tabl 1.2 – Newidiadau i DEL Adnoddau Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnodd Cyllidol | | | Adnodd Anghyllidol | | |
| | Cyllideb 2013-14[2] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig 2013-14 | Cyllideb 2013-14[3] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig 2013-14 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 5,770,553 | 202,644 | 5,973,197 | 170,000 | -1,900 | 168,100 |
| Llywodraeth Leol | 4,714,501 | -9,487 | 4,705,014 | 407 | -257 | 150 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 187,556 | -11,665 | 175,891 | 0 | 0 | 0 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 425,288 | -11,000 | 414,288 | 110,000 | 18,491 | 128,491 |
| Addysg a Sgiliau | 1,554,627 | -23,201 | 1,531,426 | 104,031 | 332,900 | 436,931 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | 323,938 | -28,088 | 295,850 | 3,340 | 5,486 | 8,826 |
| Tai ac Adfywio | 175,905 | -3,312 | 172,593 | 0 | 0 | 0 |
| Diwylliant a Chwaraeon | 121,821 | -480 | 121,341 | 3,677 | 0 | 3,677 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 302,859 | -17,739 | 285,120 | 16,000 | 2,500 | 18,500 |
| **Cyfanswm Dyraniad i Adrannau Llywodraeth Cymru** | **13,577,048** | **97,672** | **13,674,720** | **407,455** | **357,220** | **764,675** |



[2] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.
[3] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.

## Tabl 1.3 – Newidiadau i DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru

| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyllideb[4] 2013-14** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddiwygiedig 2013-14** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 241,650 | -829 | 240,821 |
| Llywodraeth Leol | 22,920 | 0 | 22,920 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 24,450 | 2,750 | 27,200 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 317,321 | 43,305 | 360,626 |
| Addysg a Sgiliau | 202,134 | 0 | 202,134 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | 86,624 | 15,692 | 102,316 |
| Tai ac Adfywio | 290,025 | 41,700 | 331,725 |
| Diwylliant a Chwaraeon | 14,224 | 860 | 15,084 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 23,813 | -171 | 23,642 |
| **Cyfanswm Dyraniad i Adrannau Llywodraeth Cymru** | **1,223,161** | **103,307** | **1,326,468** |

[4] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.

## Tabl 1.4 – Cyllideb AME Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyllideb[5] 2013-14** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddiwygiedig 2013-14** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 136,890 | 22,446 | 159,336 |
| Llywodraeth Leol | 21,856 | -3,349 | 18,507 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 0 | 0 | 0 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 47,918 | -556 | 47,362 |
| Addysg a Sgiliau | 176,869 | 64,998 | 241,867 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | 0 | 3,600 | 3,600 |
| Tai ac Adfywio | -71,000 | -2,000 | -73,000 |
| Diwylliant a Chwaraeon | 2,740 | 0 | 2,740 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 1,551 | -78 | 1,473 |
| **Cyfanswm Cyllideb AME Llywodraeth Cymru** | **316,824** | **85,061** | **401,885** |
| Comisiwn y Cynulliad | 500 | 700 | 1,200 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | -202 | 0 | -202 |
| **Cyfanswm Cyllideb AME Cymru** | **317,122** | **85,761** | **402,883** |



[5] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.

## 2. Dyraniadau o Gronfeydd wrth Gefn[6]

**2.1** Mae’r Gyllideb Atodol yn gwneud sawl dyraniad o Gronfeydd wrth Gefn, gyda sawl un yn cydymffurfio â chyhoeddiadau blaenorol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Crynhoir y prif ddyraniadau isod.

### Cynnydd yn yr Arian i'r GIG

**2.2** Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid becyn ariannu ychwanegol i'r GIG yng Nghymru o £570m dros dair blynedd, a oedd yn cynnwys £150m yn y flwyddyn ariannol bresennol i fodloni galwadau newydd a’r pwysau cydnabyddedig ar wasanaethau sy’n deillio o Adolygiad Francis. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn darparu ar gyfer dyrannu £150m yn 2013-14, gan gynnwys £142.6m o Gronfeydd wrth Gefn a £7.4m o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.

**2.3** Pan gyhoeddwyd y pecyn ariannu hwn, roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn glir na fyddai'n dileu'r angen am newidiadau sylweddol pellach yn y GIG ac na fyddai ychwaith yn lleddfu'r holl bwysau sydd ar y gwasanaeth ar hyn o bryd. Ers hynny, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cadw llygad barcud ar gyllidebau iechyd ac wedi parhau i fonitro'r pwysau ar draws y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**2.4** Mae’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn cydweithio’n agos â’r Byrddau Iechyd Lleol er mwyn sicrhau gwell canlyniad ariannol. Fodd bynnag, mae rhai risgiau ariannol yn parhau. Er mwyn sicrhau bod arian digonol yn y gyllideb i reoli’r risgiau hyn o fewn sefyllfa’r DEL, rydym yn dyrannu £50m ychwanegol i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel cam wrth gefn, rhag ofn na fydd rhai Byrddau Iechyd lleol yn gallu mantoli eu cyllidebau.

[6] Mae'r ffigurau yn yr adran hon wedi'u talgrynnu i un lle degol. Mae'r dyraniadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y Tablau o Gamau Gweithredu ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Cymorth i Gyrfa Cymru

**2.5** Yn ogystal â’r dyraniad Adnodd Cyllidol a nodir uchod, mae’r Gyllideb Atodol hon hefyd yn darparu ar gyfer dyrannu £3.1m i ariannu prosiectau penodol mewn perthynas â Gyrfa Cymru.

## Dyraniadau Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

**2.6** Mae'r Gyllideb Atodol hon yn darparu ar gyfer dyrannu £79.3m ychwanegol i gefnogi'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi sy’n cynnwys dyraniadau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2014-15 yn Hydref 2013.

**2.7** Mae’r dyraniad o £79.3m yn cynnwys arian cyfalaf traddodiadol o £10.3m ac arian trafodion ariannol o £69m.

**2.8** Mae'r dyraniadau'n cynnwys:

**Gwella Rhwydweithiau Trafnidiaeth**

- **Trafnidiaeth Integredig De-ddwyrain Cymru** - cyfalaf ychwanegol o £3.5m. Cyhoeddwyd hyn ym mis Hydref fel rhan o becyn £62m dros dair blynedd sydd â'r potensial i drawsnewid er mwyn creu system metro i Dde-ddwyrain Cymru, drwy well cysylltiadau bysiau a threnau.

- **Ffordd Gyswllt Ynys y Barri** - arian trafodion ariannol o £2m am fenthyciad deng mlynedd ad-daladwy i Gyngor Bro Morgannwg, a fydd yn cyflymu darparu Ffordd Gyswllt newydd Ynys y Barri fel rhan o'r cynllun adfywio strategol ehangach.

**Buddsoddi mewn Tai**

- **Cynllun Ecwiti a Rennir Cymorth i Brynu Cymru** - arian trafodion ariannol o £34.5m. Bydd y cynllun hwn, sy'n werth £174.5m, a gyhoeddwyd yn Hydref 2013 yn helpu unigolion a theuluoedd cymwys i brynu cartref newydd sbon, gyda morgais benthyciad isel yn rhoi cryn hwb i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf.

- **Y Grant Tai Cymdeithasol** – £5m o gyfalaf ychwanegol. Disgwylir i'r arian ychwanegol hwn greu rhwng 60 a 100 o dai newydd fforddiadwy a chreu neu gefnogi mwy na 100 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu. Bydd hefyd yn arwain at fanteision economaidd a chymdeithasol tymor hir.

- **Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** - cyfalaf ychwanegol o £0.8m i ddarparu cymorth pellach ar gyfer safleoedd newydd ac wedi'u hailwampio i Sipsiwn a Theithwyr.

**Datblygu ein Hardaloedd Menter a Datblygu Economaidd**

- **Cronfeydd Buddsoddi ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig** - arian trafodion ariannol o £32.5m i Gronfeydd Buddsoddi newydd a phresennol Cyllid Cymru er mwyn darparu mynediad i gyllid ar gyfer BBaChau, cefnogi twf busnesau, hybu allforion a chreu/diogelu swyddi. Cyhoeddwyd hyn ym mis Hydref fel rhan o becyn £82m ar gyfer Cronfeydd Buddsoddiadau Cyllid Cymru dros dair blynedd.

**Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus mwy Effeithlon a Darbodus**

- **Llyfrgell Genedlaethol Cymru** - cyfalaf ychwanegol o £1.1m i gyfrannu at waith adfer yn sgil tân yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**2.9** Yn ogystal â'r dyraniadau uchod, mae nifer o Adrannau wedi gwneud trosglwyddiadau rhwng eu cyllidebau adnoddau a chyfalaf i ddarparu cymorth cyfalaf ychwanegol o £4.9m ar gyfer y Rhaglen Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydu Arfordirol i alluogi i waith wedi'i gynllunio gael ei wneud ar gynlluniau a ddynodwyd eisoes yn flaenoriaethau i leihau'r perygl o lifogydd i dai, busnesau a seilwaith hanfodol.

## 3. Newid Allweddol yn y Gyllideb Atodol[7]

Crynhoir y prif newidiadau isod:

### Addasiadau i Linellau Sylfaen Adnoddau a Chyfalaf:

### Adnodd Cyllidol

**3.1** Mae cynnydd net i linell sylfaen DEL Adnoddau Cyllidol o £74.2m, gan gynnwys:

- Cynnydd o £1.5m oddi wrth Drysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas â chyfran Cymru o'r Gronfa Gymunedol Arfordirol;
- Cynnydd o £0.04m[8] oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd;
- Cynnydd o £0.2m oddi wrth yr Adran Addysg i ariannu myfyrwyr yng Nghymru ar gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gyda'r Brifysgol Agored;
- Cynnydd o £0.6m o'r symiau canlyniadol a dderbyniwyd yn Natganiad yr Hydref ym mis Rhagfyr 2013; a
- Cynnydd o £71.9m mewn perthynas ag arian sy'n cael ei gario ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau.

### Adnodd Anghyllidol

**3.2** Mae cynnydd net o £337.6m yn y llinell sylfaen DEL Adnoddau Anghyllidol, gan gynnwys:

- Cynnydd o £326.5m yn y llinell sylfaen DEL Adnoddau Anghyllidol mewn perthynas â throsglwyddiad o Drysorlys Ei Mawrhydi i dalu am y tâl stoc benthyciadau myfyrwyr a chynnydd yn y gyfradd Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (RAB); a

[7] Mae'r ffigurau yn yr adran hon wedi'u talgrynnu i un lle degol. Adlewyrchir y dyraniadu hyn yn y Tablau o Gamau Gweithredu ar wefan Llywodraeth Cymru.
[8] Mae'r ffigur hwn wedi'i dalgrynnu i ddau le degol o gofio gwerth y trosglwyddiad

- Cynnydd o £11.1m mewn perthynas ag arian sy'n cael ei gario ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau.

**Cyfalaf**

**3.3** Mae cynnydd net o £31m i linell sylfen y DEL Cyfalaf, gan gynnwys:

- Cynnydd o £7.8m yn dilyn trosglwyddiad o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r Fargen Werdd;
- Cynnydd o £22m o'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) mewn perthynas â phrosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf yng Nghymru; a
- Cynnydd o £1.2m mewn perthynas ag arian sy'n cael ei gario ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau.

**3.4** Yn ogystal, mae nifer o Adrannau wedi trosglwyddo arian rhwng eu cyllidebau Adnoddau a Chyfalaf. Nid yw hyn yn effeithio ar sefyllfa llinell sylfaen DEL Cymru gan fod y trosglwyddiadau'n cael eu rheoli o fewn cyfanswm yr adnoddau. Ceir manylion pellach yn y Penodau Adrannol.

**Dyraniadau i Adrannau Llywodraeth Cymru o Gronfeydd wrth Gefn**

**DEL Adnoddau Cyllidol**

**3.5** Ceir trosglwyddiad net o Gronfeydd wrth Gefn o £219.4m, gan gynnwys:

- £192.6m i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- £22m i MEG yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, mewn perthynas â phrosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf yng Nghymru;
- £3.3m i'r MEG Addysg a Sgiliau, gan gynnwys:
  - £3.1m i ariannu prosiectau penodol mewn perthynas â Gyrfa Cymru; a
  - £0.2m i'r MEG Addysg a Sgiliau i ariannu myfyrwyr yng Nghymru ar gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gyda'r Brifysgol Agored.

- £1.5m i'r MEG Tai ac Adfywio mewn perthynas â chyfran Cymru o'r Gronfa Gymunedol Arfordirol; a
- £0.04m[9] i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd.

### DEL Adnoddau Anghyllidol

**3.6** Ceir trosglwyddiad net o Gronfeydd wrth Gefn o £357.5m gan gynnwys:

- £18.5m i MEG yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth mewn perthynas â thaliadau dibrisiant ychwanegol yn dilyn adolygiad mewnol o ofynion adnoddau anghyllidol.
- £331m i'r MEG Addysg a Sgiliau i dalu am stoc benthyciadau myfyrwyr a chynnydd yn y gyfradd Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (RAB)
- £5.5m i'r MEG Cyfoeth Naturiol a Bwyd mewn perthynas â thaliadau dibrisiant ychwanegol yn dilyn adolygiad mewnol o ofynion adnoddau anghyllidol; a
- £2.5m i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer cynnydd yng nghostau dibrisiant a thaliadau amharu yn erbyn asedau gweinyddol.

### DEL Cyfalaf

**3.7** Ceir trosglwyddiad net o Gronfeydd wrth Gefn o £87.2m, gan gynnwys:

- £0.8m i'r MEG Cymunedau a Threchu Tlodi mewn perthynas â safleoedd newydd ac wedi'u hailwampio i Sipsiwn a Theithwyr;
- £36m i MEG yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gan gynnwys:
  - £3.5m ar gyfer Cam 1 prosiect Trafnidiaeth Integredig y De-ddwyrain i greu system metro drwy well cysylltiadau bysiau a threnau; a

[9] Mae'r ffigur hwn wedi'i dalgrynnu i ddau le degol o gofio gwerth y trosglwyddiad.

- £32.5m mewn perthynas ag arian trafodion ariannol i gefnogi cronfeydd buddsoddi i ddarparu mynediad i gyllid, cefnogi twf busnesau, hybu allforion a chreu/diogelu swyddi;
- £7.8m i'r MEG Cyfoeth Naturiol a Bwyd mewn perthynas â'r Fargen Werdd;
- £41.5m i'r MEG Tai ac Adfywio, gan gynnwys:
  - £34.5m i ddarparu cyllid ar gyfer cynllun Cymorth i Brynu - Cymru;
  - £5m i roi cymorth ychwanegol drwy'r Grant Tai Cymdeithasol; a
  - £2m i gyflymu'r broses o ddarparu Ffordd Gyswllt Ynys y Barri.
- £1.1m i'r MEG Diwylliant a Chwaraeon fel cyfraniad at waith adfer yn sgil tân yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

### Symiau a drosglwyddwyd i'r Cronfeydd wrth Gefn gan Adrannau Llywodraeth Cymru

### Adnodd Cyllidol

**3.8** Trosglwyddiad net o £91m i Gronfeydd wrth Gefn, gan gynnwys:

- £90.1m mewn perthynas ag arbedion a nodwyd i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:
  - £9.5m o'r MEG Llywodraeth Leol;
  - £11.7m o'r MEG Cymunedau a Threchu Tlodi;
  - £11m o MEG yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth;
  - £26.4m o'r MEG Addysg a Sgiliau;
  - £18.8m o'r MEG Adnoddau Naturiol a Bwyd;
  - £4.8m o'r  MEG Tai ac Adfywio;
  - £0.6m o'r MEG Diwylliant a Chwaraeon;
  - £7.3m o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
- £0.9m o'r MEG Adnoddau Naturiol a Bwyd mewn perthynas ag incwm ffermydd gwynt a gafodd Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Adnodd Anghyllidol

**3.9** Trosglwyddiad o £0.3m i'r Cronfeydd wrth Gefn o'r MEG Llywodraeth Leol mewn perthynas â lleihad yn y gofyn i ariannu costau dibrisiant yn Estyn ac yn y Tribiwnlysoedd Prisio.

## Cyfalaf

**3.10** Trosglwyddo £14.7m i'r Cronfeydd wrth Gefn o MEG yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth mewn perthynas ag ad-dalu benthyciadau yn ystod y flwyddyn gan Cyllid Cymru ccc.

## 4. System Cyfnewid Cyllidebau[10]

**4.1** Fel rhan o'r cytundeb rhwng y Gweinyddiaethau Datganoledig a Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru'n gallu cario tanwariant ymlaen, hyd at gap uchaf y cytunir arno, yn ystod cyfnod yr Adolygiad o Wariant. Y cap y cytunwyd arno yw 0.6% o'r gyllideb DEL Adnoddau ac 1.5% o'r Gyllideb DEL Cyfalaf. Yn ogystal, eleni mae’r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi cytuno ar drefniant arbennig gyda Llywodraeth y DU i gario ymlaen hyd at 20% o’r arian ar gyfer trafodion ariannol sydd ar gael yn 2003-14.

**4.2** Ar gyfer 2013-14, mae hyn yn golygu mai'r cap fydd £85m ar gyfer DEL Adnoddau. Mae hyn yn cynnwys DEL Adnoddau Cyllidol o £82.2m a DEL Adnoddau Anghyllidol o £2.8m, cyfalaf traddodiadol o £18.3m a £16.1m ar gyfer arian trafodion ariannol.

**4.3** Mae Cronfeydd wrth Gefn ar gael i dalu am unrhyw bwysau hwyr. Ar hyn o bryd mae hynny’n cynnwys DEL Adnoddau o £101.9m, sy’n cynnwys DEL Adnoddau Cyllidol o £50.8m a DEL Adnoddau Anghyllidol o £51.1m, a DEL Cyfalaf o £7.7m, sy’n cynnwys arian trafodion ariannol o £1.3m.

**4.4** Byddwn yn cario ymlaen unrhyw Gronfeydd pellach heb eu defnyddio hyd at y cap y cytunwyd arno o dan y System Cyfnewid Cyllidebau. Cyhoeddir y cyfanswm a fydd yn cael ei gario ymlaen yn yr Adroddiad Alldro.

[10] Mae’r ffigurau yn yr adran hon wedi’u talgrynnu i un lle degol.

## 5. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**5.1** Cafwyd cynnydd net yn y DEL Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o £199,915k sy'n cynnwys cynnydd mewn Adnoddau o £200,744k a gostyngiad mewn Cyfalaf o £829k.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**5.2** Mae'r gyllideb AME wedi cynyddu £22,446k i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf o ran darpariaethau ac amhariadau yn y GIG.

### Newidiadau i Adnoddau

**5.3** Effaith net trosglwyddiadau o Gronfeydd wrth Gefn yw cynnydd o £192,600k. Mae hyn yn cynnwys:

- £142,600k fel rhan o'r pecyn ariannu o £150,000k a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid ym mis Hydref 2013 i fodloni galwadau newydd a'r pwysau cydnabyddedig i wasanaethau yn deillio o Adolygiad Francis; a
- £50,000k ychwanegol i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel cam wrth gefn, rhag ofn na fydd rhai Byrddau Iechyd Lleol yn gallu mantoli eu cyllidebau.

**5.4** Effaith net trosglwyddiadau gyda MEGs eraill yw cynnydd o £8,144k. Mae hyn yn cynnwys yr addasiadau canlynol dros £250k:

- £12,224k i mewn o Gam Gweithredu Buddsoddi i Arbed o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i Gam Gweithredu Gwasanaethau Craidd y GIG mewn perthynas â buddsoddiadau Buddsoddi i Arbed. Mae hyn yn cynnwys £7,432k a gyhoeddwyd fel rhan o'r pecyn ariannu £150,000k a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid yn Hydref 2013 i fodloni galwadau newydd a'r pwysau ar wasanaethau sy'n deillio o Adolygiad Francis;

- o £1,014k allan i Gam Gweithredu Ad-dalu Buddsoddiadau'r Gronfa Buddsoddi i Arbed o Gam Gweithredu Gwasanaethau Craidd y GIG mewn perthynas ag ad-dalu buddsoddiadau;
- £547k allan i Gam Gweithredu Costau Staff o fewn MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu o Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â chostau rhedeg yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH);
- £619k allan i Gam Gweithredu Academi Wales (Cam Gweithredu PSMW gynt) o fewn MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu o Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â chostau gweithredol NLIAH; a
- £1,900k allan i Gam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16 o fewn MEG Addysg a Sgiliau o Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu i gwmpasu taliadau i Brifysgol Caerdydd (trwy CCAUC) i gefnogi hyfforddiant meddygol a deintyddol.

**5.5** Hefyd, cafwyd nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG. Mae effaith net y trosglwyddiadau hyn yn niwtral. Mae tablau'r camau gweithredu'n dangos effaith y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau dros £250k:

Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd

Trosglwyddiad net o £181,532k i mewn, gan gynnwys:

- £169,740k i mewn o Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu i adlewyrchu trosglwyddo'r gyllideb ddibrisiant;
- £6,900k i mewn o Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu mewn perthynas ag arian ar gyfer contract y GMS a chynlluniau Fforwm Ystadau Gofal Sylfaenol (PCEF) wedi'u cwblhau;
- £1,261k i mewn o Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu mewn perthynas ag arian ar gyfer Cronfa Skipton a Sefydliad Caxton;

- £567k i mewn o Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â'r contract Deintyddol;
- £500k i mewn o Gam Gweithredu Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â'r contract Fferylliaeth;
- £3,500k i mewn o Gam Gweithredu Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl mewn perthynas â dyraniad craidd BILl i ariannu'r Mesur Iechyd Meddwl;
- £1,575k i mewn o Gam Gweithredu Iechyd ac Imiwneiddio wedi'i Dargedu mewn perthynas â chostau Brechlynnau i mewn i'r Contract GMS;
- £1,525k allan i Gam Gweithredu Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru;
- £617k i Gam Gweithredu Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus mewn perthynas â sgrinio ar gyfer Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen i mewn i ddyraniad craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru; a
- £589k allan i Gam Gweithredu Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â Chydwasanaethau.

Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu

- Trosglwyddiad net allan o £169,891k, gan gynnwys:
  - £169,740k allan i Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu i adlewyrchu trosglwyddo'r gyllideb ddibrisiant;
  - £6,900k allan i Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu mewn perthynas ag arian ar gyfer contract y GMS a chynlluniau PCEF wedi'u cwblhau;
  - £4,417k allan i Gam Gweithredu Noddi Cyrff y GIG mewn perthynas â throsglwyddo swyddogaethau NLIAH i mewn i ddyraniad craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru;
  - £1,849k allan i Gam Gweithredu Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau Iechyd mewn perthynas â chostau ailbrosesu cyffuriau ffliw pandemig sy'n dod i ben;

- £1,261k allan i Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas ag arian ar gyfer Cronfa Skipton a Sefydliad Caxton;
- £567k allan i Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas â'r contract Deintyddol;
- £500k allan i Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas â'r  Contract fferyllol;
- £1,525k i mewn o Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas â gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru o ddyraniad craidd y Byrddau Iechyd Lleol;
- £589k i mewn o Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas â chydwasanaethau; a
- £12,712k i mewn o nifer o gamau gweithredu yn dilyn ymarfer adolygu'r gyllideb yn ystod y flwyddyn i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:
    - 3,755k i mewn o Gam Gweithredu Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG;
    - £1,178k i mewn o Gam Gweithredu Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl;
    - £404k i mewn o Gam Gweithredu Cymorth Hosbis;
    - £460k i mewn o Gam Gweithredu Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau;
    - £548k i mewn o Gam Gweithredu Noddi Cyrff y GIG;
    - £1,464k i mewn o Gam Gweithredu Cyflawni Gweithgareddau Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio Pwrpasol;
    - £2,291k i mewn o Gam Gweithredu Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach; a
    - £2,612 i mewn o Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Ymchwil a Datblygu er budd Cleifion a'r Cyhoedd.

Cefnogi Cam Gweithredu Addysg a Hyfforddiant Gweithlu'r GIG

- Trosglwyddiad net o £3,670 allan, gan gynnwys £3,755k i Gam Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu  mewn perthynas ag arbedion a nodwyd i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn.

Cam Gweithredu Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl

- Trosglwyddo allan £5,015k, gan gynnwys:
  - £1,178k allan i Gam Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu mewn perthynas ag  arbedion a nodwyd i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn; a
  - £3,500k allan i Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd o ganlyniad i'r arian i dalu costau cyflawni'r Mesur Iechyd Meddwl sy'n trosglwyddo i ddyraniad BILl.

Cam Gweithredu Cymorth Hosbis

- Trosglwyddo allan £404k i Gam Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u targedu mewn perthynas ag arbedion a nodwyd i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn.

Cyflawni Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau

- Trosglwyddo allan £460k i Gam Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u targedu mewn perthynas ag arbedion a nodwyd i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn.

Cam  Gweithredu Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus

- Trosglwyddiad net i mewn o £4,486k, gan gynnwys:

- £4,417k i mewn o Gam Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u targedu mewn perthynas â throsglwyddo swyddogaethau (NLIAH) i Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- £617k i mewn o Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas ag Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen; a
- £548k allan i Gam Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u targedu mewn perthynas ag arbedion a nodwyd i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn.

Cam Gweithredu Iechyd ac Imiwneiddio wedi'i Dargedu

- Trosglwyddiad net allan o £3,039k, gan gynnwys:
- £1,464k allan i Gam Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u targedu mewn perthynas ag arbedion a nodwyd i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn; a
- £1,575k allan i Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas â throsglwyddo costau brechu i ddyraniad cyllidebol y GMS.

Cam Gweithredu Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach

- Trosglwyddiad allan o £2,376k, gan gynnwys £2,291k i Gam Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u argedu mewn perthynas ag arbedion a nodwyd i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn.

Cam Gweithredu Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau Iechyd

- Trosglwyddo i mewn £1,849k o Gam Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u argedu mewn perthynas â chostau ailbrosesu cyffuriau ffliw pandemig sy'n yn dod i ben.

Datblygu a Gweithredu Ymchwil a Datblygu er Budd Cleifion a'r Cyhoedd

- Trosglwyddo allan £2,612k i Gam Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u targedu mewn perthynas ag arbedion a nodwyd i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn.

Cam Gweithredu'r Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol

- Trosglwyddo i mewn £378k o Gam Gweithredu Cyngor Gofal Cymru i gefnogi costau hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Cam Gweithredu Cyngor Gofal Cymru

- Trosglwyddo allan £378k i Gam Gweithredu'r Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Hwn ar gael o ganlyniad i ail-alinio cyllideb gyhoeddedig Cyngor Gofal Cymru â'i ddyraniad blynyddol gwirioneddol

**Newidiadau i Gyfalaf**

**5.6** Effaith net trosglwyddiadau gyda Phrif Grwpiau Gwariant eraill yw gostyngiad o £829k, sy'n cynnwys yr addasiadau canlynol dros £250k:

- £1,000k allan i Gam Gweithredu Cymunedau a Threchu Tlodi o fewn MEG Cymunedau a Threchu Tlodi mewn perthynas â datblygu'r seilwaith i ddarparu Dechrau'n Deg.

## Tabl 5.1 - Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol

| DEL | £000oedd<br>Adnoddau 2013-14<br>Cyllideb[11] | £000oedd<br>Adnoddau 2013-14<br>Newidiadau | £000oedd<br>Adnoddau 2013-14<br>Cyllideb Ddiwygiedig | £000oedd<br>Cyfalaf 2013-14<br>Cyllideb[12] | £000oedd<br>Cyfalaf 2013-14<br>Newidiadau | £000oedd<br>Cyfalaf 2013-14<br>Cyllideb Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflenwi'r GIG | 5,494,916 | 212,385 | 5,707,301 | 227,375 | -829 | 226,546 |
| Cyllidebau Iechyd Canolog | 228,904 | -9,549 | 219,355 | 5,072 | 0 | 5,072 |
| Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau | 157,392 | -2,092 | 155,300 | 4,492 | 0 | 4,492 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 49,179 | 0 | 49,179 | 4,711 | 0 | 4,711 |
| CAFCASS Cymru | 10,162 | 0 | 10,162 | - | - | - |
| **Cyfanswm DEL** | **5,940,553** | **200,744** | **6,141,297** | **241,650** | **-829** | **240,821** |
| **AME** | | | | | | |
| Amhariadau'r GIG | 136,890 | 22,446 | 159,336 | - | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **6,077,443** | **223,190** | **6,300,633** | **241,650** | **-829** | **240,821** |

[11] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.
[12] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.

## 6. Llywodraeth Leol

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**6.1** Cafwyd gostyngiad yn y DEL Llywodraeth Leol, gan gynnwys gostyngiad mewn Adnoddau o £9,744k. Nid oes unrhyw addasiadau i gyfalaf.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**6.2** Mae'r Gyllideb AME o fewn Cam Gweithredu Cymorth Cyllid ar gyfer Lywodraeth Leol wedi gostwng £3,349k i adlewyrchu costau gwirioneddol mewn perthynas â Phensiynau'r Gwasanaeth Tân.

### Newidiadau i Adnoddau

**6.3** Effaith y trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn yw gostyngiad o £9,744k, gan gynnwys:

- Trosglwyddo £9,487k allan fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiadau canlynol:
- £5,174k o Gam Gweithredu Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol;
- £242k o Gam Gweithredu Cadernid y Gwasanaethau Tân ac Achub;
- £696k o Gam Gweithredu Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub;
- £29k o Gam Gweithredu Cam-drin Domestig;
- £144k o Gam Gweithredu Cyfiawnder Ieuenctid;
- £226k o Gam Gweithredu Adeiladu Democratiaeth Leol;
- £504k o Gam Gweithredu Gwella Llywodraeth Leol;
- £998k o Gam Gweithredu Cefnogi Cydweithredu a Diwygio
- £549k o Gam Gweithredu'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol; a
- £925k o Gam Gweithredu Estyn.

- Trosglwyddo allan £257k o adnodd anghyllidol mewn perthynas â lleihad yn y gofyn i ariannu costau dibrisiant, gan gynnwys £250k o Gam Gweithredu Estyn.

**6.4** Cafwyd nifer bach o drosglwyddiadau o fewn y MEG, ac mae effaith net y rhain yn niwtral. Mae tablau'r Camau Gweithredu'n dangos effaith y rhain ar bob Cam Gweithredu. Nid oes unrhyw drosglwyddiadau dros £250k.

**Newidiadau i Gyfalaf**

**6.5** Cafwyd nifer bach o drosglwyddiadau o fewn y MEG, ac mae effaith net y rhain yn niwtral. Mae tablau'r Camau Gweithredu'n dangos effaith net y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod ceir dadansoddiad o drosglwyddiadau dros £250k:

Cam Gweithredu Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig

- Trosglwyddo i mewn £332k o Gam Gweithredu Cadernid Tân ac Achub ar gyfer gwelliannau i siopau un tro cam-drin domestig.

Cam Gweithredu Cadernid Tân ac Achub

- Trosglwyddo allan £332k i Gam Gweithredu Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig. Hwn ar gael o grantiau sydd heb gael eu defnyddio'n llawn eleni.

### Tabl 6.1 – Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant Llywodraeth Leol

| DEL | £000oedd Adnoddau 2013-14 | | | £000oedd Cyfalaf 2013-14 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb[13]** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddiwygiedig** | **Cyllideb[14]** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddiwygiedig** |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 4,628,294 | -4,997 | 4,623,297 | 20,000 | 0 | 20,000 |
| Cymunedau Diogelach | 16,373 | -1,111 | 15,262 | 2,639 | 150 | 2,789 |
| Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Darparu | 40,825 | -1,544 | 39,281 | - | - | - |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol | 14,461 | -549 | 13,912 | - | - | - |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 2,591 | 171 | 2,762 | - | - | - |
| Estyn | 12,364 | -1,714 | 10,650 | 281 | -150 | 131 |
| **Cyfanswm DEL** | **4,714,908** | **-9,744** | **4,705,164** | **22,920** | **0** | **22,920** |
| **AME** | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 21,856 | -3,349 | 18,507 | - | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **4,736,764** | **-13,093** | **4,723,671** | **22,920** | **0** | **22,920** |

Tudalen 62

[13] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.
[14] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.

## 7. Cymunedau a Threchu Tlodi

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**7.1** Cafwyd gostyngiad net yn y DEL Cymunedau a Threchu Tlodi o £8,915k, gan gynnwys gostyngiad mewn Adnoddau o £11,665k a chynnydd mewn Cyfalaf o £2,750k.

### Newidiadau i Adnoddau

**7.2** Mae effaith net y trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn yn golygu gostyngiad o £11,665k, fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- £2,000k o'r Cam Gweithredu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd;
- £551k o Gam Gweithredu'r Trydydd Sector;
- £9,114k o'r Cam Gweithredu Trechu Tlodi.

**7.3** Cafwyd nifer bach o drosglwyddiadau o fewn y MEG, ac mae effaith net y rhain yn niwtral. Mae tablau'r camau gweithredu'n dangos effaith y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod ceir manylion y trosglwyddiadau dros £250k:

<u>Y Cam Gweithredu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd</u>

- Trosglwyddo £568k o'r Cam Gweithredu Trechu Tlodi i roi arian ychwanegol ar gyfer chwarae.

<u>Y Cam Gweithredu Trechu Tlodi</u>

- Trosglwyddo £568k i'r Cam Gweithredu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, yn deillio o gam cyntaf y Gronfa Cymorth Dewisol.

### Newidiadau i Gyfalaf

**7.4** Cafwyd trosglwyddiad o Gronfeydd wrth Gefn o £750k i Gam Gweithredu Cymunedau a Threchu Tlodi mewn perthynas â safleoedd newydd ac wedi'u hailwampio i Sipsiwn a Theithwyr.

**7.5** Effaith net trosglwyddiadau gyda MEGs eraill yw cynnydd o £2,000k, sy'n cynnwys yr addasiadau canlynol dros £250k:

- Trosglwyddo i mewn £1,000k i Gam Gweithredu Cymunedau a Threchu Tlodi o Gam Gweithredu Cyfalaf o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â safleoedd newydd ac wedi'u hailwampio i Sipsiwn a Theithwyr; a
- Trosglwyddo i mewn £1,000k i Gam Gweithredu Cymunedau a Threchu Tlodi o fewn Cam Gweithredu Cyflawni'r GIG yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â datblygu'r seilwaith i gyflawni Dechrau'n Deg.

### Tabl 7.1 - Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi

| DEL | £000oedd | | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau 2013-14 | | | Cyfalaf 2013-14 | | |
| | Cyllideb[15] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[16] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | 117,538 | -1,432 | 116,106 | - | - | - |
| Cefnogi Cymunedau a Phobl | 67,097 | -10,407 | 56,690 | - | - | - |
| Datblygu Cynaliadwy a Chydraddoldeb | 2,921 | 174 | 3,095 | - | - | - |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | - | - | - | 24,450 | 2,750 | 27,200 |
| **Cyfanswm DEL** | **187,556** | **-11,665** | **175,891** | **24,450** | **2,750** | **27,200** |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **187,556** | **-11,665** | **175,891** | **24,450** | **2,750** | **27,200** |



[15] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.
[16] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.

## 8. Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**8.1** Cafwyd cynnydd yn DEL yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o £50,796k, gan gynnwys cynnydd mewn Adnoddau o £7,491k a chynnydd mewn Cyfalaf o £43,305k.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**8.2** Ceir gostyngiad net i Gyllideb AME o £556k, gan gynnwys gostyngiad o £12,708k mewn perthynas ag ailbroffilio cwblhau cynlluniau ffyrdd a chynnydd o £12,152k mewn perthynas ag amhariadau ar y portffolio eiddo, cyd-fentrau a buddsoddiadau

### Trosglwyddiadau Llywodraeth y DU

**8.3** Trosglwyddiad o £21,955k i mewn i Gam Gweithredu Darparu Seilwaith TGCh o'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) mewn perthynas â Phrosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf yng Nghymru.

### Newidiadau i Adnoddau

**8.4** Effaith net trosglwyddiadau gyda Chronfeydd wrth Gefn yw cynnydd o £7,491k, sy'n cynnwys yr addasiadau canlynol:

- Trosglwyddiad i Gronfeydd wrth Gefn o £11,000k fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y trosglwyddiadau canlynol:
  - £3,415k o Gam Gweithredu Entrepreneuriaeth a Gwybodaeth Fusnes;
  - £1,533k o Gam Gweithredu Arloesi;
  - £1,606k o Gam Gweithredu Darparu Seilwaith TGCh;
  - £466k o Gam Gweithredu Darparu Seilwaith yn gysylltiedig ag Eiddo;
  - £147k o Gam Gweithredu Rhaglenni Corfforaethol;
  - £500k o Gam Gweithredu Cyllid Cymru;

- £2,963k o Gam Gweithredu Teithio Cynaliadwy; a
- £370k o Gam Gweithredu Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd.

- Trosglwyddiad o £18,491k i mewn o Gronfeydd wrth Gefn mewn perthynas â thaliadau dibrisiant ychwanegol, yn dilyn adolygiad mewnol o ofynion Adnoddau Anghyllidol o fewn y portffolio EST, gan gynnwys:
  - £1,491k i Gam Gweithredu Darparu Seilwaith TGCh – Adnoddau Anghyllidol; a
  - £17,000k i mewn i Gam Gweithredu Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Ffyrdd Domestig) - Adnoddau Anghyllidol.

**8.5** Cafwyd nifer o drosglwyddiadau adnoddau o fewn y MEG, ac mae effaith net y rhain yn niwtral. Mae tablau'r camau gweithredu'n dangos effaith y rhan ar bob Cam Gweithredu. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k:

Cam Gweithredu Teithio Cynaliadwy

- Trosglwyddo allan £5,000k i Gam Gweithredu Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr, i adlewyrchu ailbroffilio'r gwariant gofynnol i docynnau teithio rhatach o adnoddau i gyfalaf;

Cam Gweithredu Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr

- Trosglwyddo i mewn £5,000k o Gam Gweithredu Teithio Cynaliadwy i gefnogi pwysau chwyddiant sy'n gysylltiedig â masnachfraint y rheilffyrdd.

Cam Gweithredu Arloesi

- Trosglwyddiad net allan o £4,906k yn sgil y cynnydd yn Incwm yr UE sy'n cael ei wario, gan gynnwys:

- £2,906k allan i Gam Gweithredu Sectorau; a
- £2,000k allan i Gam Gweithredu Marchnata.

Cam Gweithredu Sectorau

- Trosglwyddo i mewn £2,906k o Gam Gweithredu Arloesi i gyflawni'r blaenoriaethau adnoddau ar gyfer Canolfan Gwyddorau Bywyd a Wales Rally GB.

Cam Gweithredu Marchnata

- Trosglwyddo i mewn £2,000k i gefnogi gweithgarwch hyrwyddo ychwanegol i gefnogi twf a swyddi.

**Newidiadau i Gyfalaf**

**8.6** Effaith net trosglwyddiadau gyda Chronfeydd wrth Gefn yw cynnydd o £21,350k, sy'n cynnwys yr addasiadau canlynol dros £250k:

- Trosglwyddo allan £14,650k o Gam Gweithredu Cyllid Cymru mewn perthynas ag ad-daliadau yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau gan Cyllid Cymru ccc;
- Trosglwyddo £36,000k i mewn, gan gynnwys:
  - £3,500k ar gyfer Prosiect Trafnidiaeth Integredig De-ddwyrain Cymru – Cam 1 i greu system metro trwy gysylltiadau rheilffyrdd a bysiau gwell, gan gynnwys £1,730k i Gam Gweithredu Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd a £1,770k i Gam Gweithredu Teithio Cynaliadwy; a
  - £32,500k o arian trafodion ariannol i Gam Gweithredu Sectorau i gefnogi cronfeydd buddsoddi i ddarparu mynediad i gyllid, cefnogi twf busnesau, allforion a chreu / diogelu swyddi.

**8.7** Cafwyd nifer o drosglwyddiadau cyfalaf o fewn y MEG ac mae effaith net y rhain yn niwtral. Mae tablau'r camau gweithredu'n dangos effaith y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k:

<u>SIF Etifeddol</u>

- Trosglwyddo allan £2,500k i Gam Gweithredu Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd. Hwn ar gael o ganlyniad i leihau ymrwymiadau i'r rhaglen etifeddol.

<u>Cam Gweithredu Sectorau</u>

- Trosglwyddo i mewn £20,000k o Gam Gweithredu Darparu Seilwaith TGCh i ddarparu prosiectau cyfalaf ar gyfer Twf a Swyddi.

<u>Cam Gweithredu Darparu Seilwaith TGCh</u>

- Trosglwyddo allan £26,000k yn sgil ailbroffilio arian Band Eang y Genhedlaeth Nesaf y DU, gan gynnwys:
  - £20,000k i Gam Gweithredu Sectorau; a
  - £6,000k i Gam Gweithredu Gweithrediadau Traffyrdd a Rheilffyrdd.

<u>Cam Gweithredu Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd</u>

Trosglwyddo i mewn £8,500k er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol i gynnal diogelwch y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd, gan gynnwys:

- £6,000k o Gam Gweithredu Darparu Seilwaith TGCh; a
- £2,500k o Gam Gweithredu SF Etifeddol.

Cam Gweithredu Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd

- Trosglwyddo allan £5,000k i Gam Gweithredu Teithio Cynaliadwy yn sgil ailbroffilio prosiectau mawr.

Cam Gweithredu Teithio Cynaliadwy

- Trosglwyddo i mewn £5,000k o Gam Gweithredu Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd i gefnogi'r gofyniad cyfalaf dangosol ar gyfer tocynnau teithio rhatach.

## Tabl 8.1 - Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

| DEL | £000oedd | | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau 2013-14 | | | Cyfalaf 2013-14 | | |
| | **Cyllideb[17]** | **Newidiadau** | **Cyllideb** | **Newidiadau** | **Cyllideb[18]** | **Newidiadau** |
| Sectorau a Busnes | 51,089 | -509 | 50,580 | 56,519 | 50,000 | 106,519 |
| Gwyddoniaeth ac Arloesi | 14,269 | -6,439 | 7,830 | 3,613 | 0 | 3,613 |
| Digwyddiadau Mawr | 4,740 | 0 | 4,740 | - | - | - |
| Seilwaith | 20,642 | -581 | 20,061 | 36,456 | -4,045 | 32,411 |
| Rhaglenni Strategaeth a Corfforaethol | 10,138 | 1,353 | 11,491 | 59 | -14,650 | -14,591 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd | 174,212 | 17,000 | 191,212 | 48,551 | 8,500 | 57,051 |
| Gwasanaethau Rheiffyrdd ac Awyr | 173,179 | 5,000 | 178,179 | - | - | - |
| Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd | - | - | - | 109,916 | -3,270 | 106,646 |
| Teithio Cynaliadwy | 82,302 | -7,963 | 74,339 | 41,640 | 6,770 | 48,410 |
| Gwella a Chynnal y Seilwaith Ffyrdd Lleol | - | - | - | 13,667 | 0 | 13,667 |
| Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd | 4,717 | -370 | 4,347 | 6,900 | 0 | 6,900 |
| **Cyfanswm DEL** | **535,288** | **7,491** | **542,779** | **317,321** | **43,305** | **360,626** |
| **AME** | | | | | | |
| Seilwaith | 20,000 | 12,152 | 32,152 | - | - | - |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd | 27,918 | -12,708 | 15,210 | - | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **583,206** | **6,935** | **590,141** | **317,321** | **43,305** | **360,626** |

[17] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.
[18] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.

## 9. Addysg a Sgiliau

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**9.1** Cafwyd cynnydd yn y DEL Addysg a Sgiliau, gan gynnwys cynnydd mewn Adnoddau o £309,699k. Nid oes unrhyw addasiadau i gyfalaf.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**9.2** Mae cynnydd net i Gyllideb AME o £64,998k, gan gynnwys gostyngiad mewn AME o £11,195k a chynnydd mewn Cyfalaf AME o £76,193k. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ynghylch benthyciadau i fyfyrwyr a'r addasiadau i bensiynau sy'n gysylltiedig â Gyrfa Cymru ers iddo ddod yn is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2013.

### Trosglwyddiadau Llywodraeth y DU

**9.3** Effaith trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU yw cynnydd o £326,618k, gan gynnwys:

- Trosglwyddo i mewn £168k i Gam Gweithredu Addysg Uwch o'r Adran Addysg i ariannu myfyrwyr yng Nghymru ar gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gyda'r Brifysgol Agored; a
- Trosglwyddo i mewn £326,450k o Adnoddau Anghyllidol i Gam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16 o Drysorlys Ei Mawrhydi i dalu am stoc benthyciadau myfywyr a chynnydd yn y gyfradd Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (RAB).

### Newidiadau i Adnoddau

**9.4** Effaith net trosglwyddiadau gyda Chronfeydd wrth Gefn yw cynnydd o £4.271k, gan gynnwys:

- Cyfanswm trosglwyddiad allan o £26,379k fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn gan gynnwys:
  - £408k o Gam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd;
  - £65k o Gam Gweithredu'r Cwricwlwm;

- £9,506k o Gam Gweithredu Addysg ôl-16;
- £250k o Gam Gweithredu Strwythurau Addysg;
- £11,000k o Gam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau;
- £2,100k o Gam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-6;
- £2,900k o Gam Gweithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion
- £150k o Gam Gweithredu Ennyn Diddordeb Disgyblion.

- Trosglwyddo i mewn £3,100k i Gam Gweithredu Dewisiadau Addysg a Gyrfa i ariannu prosiectau penodol mewn perthynas â Gyrfa Cymru; a
- Trosglwyddo £4,450k o adnodd anghyllidol i'r Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16 o Drysorlys Ei Mawrhydi i dalu am y tâl stoc benthyciadau myfyrwyr a chynnydd yn y gyfradd Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (RAB).

**9.5** Effaith net trosglwyddiadau gyda MEGs eraill yw cynnydd o £1,810k sy'n cynnwys yr addasiad canlynol dros £250k:

- Trosglwyddo i mewn adnoddau anghyllidol o £1,900k i Gam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16 o Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gwmpasu taliadau i Brifysgol Caerdydd (trwy CCAUC) i gefnogi hyfforddiant meddygol a deintyddol.

**9.6** Cafwyd nifer bach o drosglwyddiadau o fewn y MEG, ac mae effaith net y rhain yn niwtral. Mae tablau'r camau gweithredu'n dangos effaith y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k:

<u>Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd</u>

- Trosglwyddo allan £485k fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn o fewn y MEG. Hwn ar gael o ganlyniad i ostyngiad mewn

gweithgarwch a chostau, mewn perthynas â marchnata a chyfathrebu ac adolygiadau gwerthuso.

Cam Gweithredu'r Cwricwlwm

- Trosglwyddiad net i mewn o £5,404k, gan gynnwys:
  - £577k allan fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn o fewn y MEG, sydd ar gael o ganlyniad i ostyngiad mewn gweithgarwch a chostau, yn dilyn yr adolygiad cyflym o weithgareddau arfaethedig o fewn Cynlluniau Datblygu Rhwydweithiau Rhanbarthol 14-19;
  - £5,926k i mewn o Gam Gweithredu Cymorth Cyflawni i ddarparu adnoddau ychwanegol i'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol.

Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth

- Trosglwyddo allan £2,985k fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn o fewn y MEG. Hwn ar gael gan i nifer llai fanteisio ar y Rhaglen Feistri na'r hyn y cyllidebwyd amdano;
- a llai o gostau wedi'u clustnodi ar gyfer rhaglenni datblygu arweinyddiaeth.

Cam Gweithredu Addysg ôl-16

- Trosglwyddiad net allan o £2,606k gan gynnwys:
  - £2,294k allan fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn o fewn y MEG. Hwn ar gael o ganlyniad i leihau'r gyllideb Sgiliau Oedolion ôl-19; a
  - £350k allan i Gam Gweithredu Cymorth Cyflawni i gyfrannu at Gam Gweithredu Sgiliau Cymru.

Cam  Gweithredu Addysg Uwch

- Trosglwyddiad net allan o £1,700k, gan gynnwys:
  - £2,500k i mewn i reoli'r pwysau ar ddarparu Addysg i Brifysgol Blaenau'r Cymoedd; a
  - £4,200k allan i Gam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16 i ariannu Cynllun Bwrsariaeth Cenedlaethol Cymru.

Cam Gweithredu TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth

- Trosglwyddo i mewn £3,203k i reoli pwysau ariannu prosiect band eang Dysgu yng Nghymru Ddigidol.

Cam Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc

- Trosglwyddiad  allan o £2.265k  gan gynnwys £2.040k fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn o fewn y MEG. Mae hwn ar gael o ganlyniad i ostyngiad mewn costau ar gyfer prosiect  i wella sgiliau graddedigion di-waith a'u paratoi ar gyfer gyrfa mewn TG, a'r ffaith fod incwm uwch na'r hyn a ragwelwyd wedi'i dynnu i lawr yn erbyn gwariant ad-daledig yn dilyn cau'r prosiect Cyrraedd y Nod yn yr hawliad olaf.

Cam Gweithredu Llesiant Plant a Phobl Ifanc

- Trosglwyddo allan £1,440k fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn o fewn y MEG. Hwn ar gael o ganlyniad i newidiadau i'r amserlen ar gyfer Deddfwriaeth ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ymchwil ar gwnsela mewn ysgolion cynradd.

Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16

- Trosglwyddiad net i mewn o £3,502k, gan gynnwys;

- £800k allan fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn o fewn y MEG. Hwn ar gael o ganlyniad i alinio taliadau ar Gronfeydd Ariannol wrth Gefn i sail dymhorol; a
- £4,200k i mewn o Gam Gweithredu Addysg Uwch ar gyfer ariannu Cynllun Bwrsariaeth Cenedlaethol Cymru.

Cam Gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg

- Trosglwyddiad net allan o £532k. Nid oes unrhyw drosglwyddiadau dros £250k.

Cam Gweithredu'r Gymraeg

- Trosglwyddiad net i mewn o £946k, gan gynnwys £545k i reoli'r pwysau yn erbyn y Gronfa Dechnoleg ac ar gyfer prosiectau penodol i hybu'r Gymraeg.

Cam Gweithredu Cymorth Cyflawni

- Trosglwyddiad net allan o £623k gan gynnwys:
  - £1,108k allan fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn o fewn y MEG. Hwn yn deillio o ostyngiad yn y gweithgarwch ar gyllidebau marchnata a chyfathrebu a thystiolaeth ymchwil; a
  - £350k i mewn o Gam Gweithredu ôl-16 i gyfrannu at weithgareddau Sgiliau Cymru.

## Tabl 9.1 – Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant Addysg a Sgiliau

| DEL | £000oedd Adnoddau 2013-14 | | | £000oedd Cyfalaf 2013-14 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb[19]** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddiwygiedig** | **Cyllideb[20]** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddiwygiedig** |
| Safonau Addysg a Hyfforddiant | 1,200,051 | -12,449 | 1,187,602 | 202,134 | 0 | 202,134 |
| Gweithlu Medrus | 74,903 | -10,355 | 64,548 | - | - | - |
| Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad | 354,579 | 332,712 | 687,291 | - | - | - |
| Y Gymraeg | 25,076 | 414 | 25,490 | - | - | - |
| Cymorth Cyflawni | 4,049 | -623 | 3,426 | - | - | - |
| **Cyfanswm DEL** | **1,658,658** | **309,699** | **1,968,357** | **202,134** | **0** | **202,134** |
| **AME** | | | | | | |
| Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad | -87,261 | -17,195 | -104,456 | - | - | - |
| Gweithlu Medrus | 0 | 6,000 | 6,000 | - | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **1,571,397** | **298,504** | **1,869,901** | **202,134** | **0** | **202,134** |

Tudalen 77

[19] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.
[20] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.

## 10. Cyfoeth Naturiol a Bwyd

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**10.1** Cafwyd gostyngiad net yn y DEL Cyfoeth Naturiol a Bwyd o £6,910k, gan gynnwys gostyngiad mewn Adnoddau o £22,602k a chynnydd mewn Cyfalaf o £15,692k.

### Newidiadau i Strwythur y Gyllideb

**10.2** Mae'r cyn SPA Amddiffyn a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi cael ei rannu'n ddau gam gweithredu er mwyn gwella tryloywder y gyllideb. Y ddau Gam Gweithredu newydd yw Cefnogi a Gweithredu'r Rhaglen/Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid a Rheoli a Gweithredu'r Rhaglen Dileu TB a Chlefydau Endemig Eraill.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**10.3** Mae'r Gyllideb AME wedi cynyddu £3,600k i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf mewn perthynas â'r rhwymedigaeth bensiynau ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

### Trosglwyddiadau Llywodraeth y DU

**10.4** Trosglwyddwyd £7,792k i mewn i Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoleiddio Newid Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd (Cyfalaf) o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r Fargen Werdd.

### Newidiadau i Adnoddau

**10.5** Effaith net trosglwyddiadau gyda Chronfeydd wrth Gefn yw gostyngiad o £14,185k, gan gynnwys:

- Trosglwyddo i mewn £5,365k o adnodd anghyllidol i'r Cam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu i dalu am gwfert ychwanegol ar gyfer dibrisiant Cyfoeth Naturiol Cymru;

- Trosglwyddo i mewn £29k o adnoddau anghyllidol i Gam Gweithredu Datblygu Sylfaen Briodol er mwyn helpu Gwaith yr Adran, i dalu am gwfert ychwanegol ar gyfer dibrisiant Pwllpeiran;
- Trosglwyddo i mewn adnoddau anghyllidol o £92k i Gam Gweithredu Rheoli a Gweithredu'r Rhaglen Dileu TB a Chlefydau Endemig Eraill i dalu am ddibrisiant asedau Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol;
- Trosglwyddo allan £871k i Gronfeydd wrth Gefn o Gam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu mewn perthynas ag incwm ffermydd gwynt a gafodd Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Trosglwyddo allan £18,800k i Gronfeydd wrth Gefn fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiadau canlynol:
    - £100k o Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoleiddio Newid Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd;
    - £1,800k o Gam Gweithredu Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r Rhaglen Caffael Gwastraff;
    - £400k o Gam Gweithredu Rheoli a Gweithredu Gwelliant Amgylcheddol;
    - £9,800k o Gam Gweithredu Rheoli a Gweithredu'r Rhaglen Dileu TB a Chlefydau Endemig Eraill; a
    - £6,700k o Gam Gweithredu Cyflawni'r Rhaglenni o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig.

**10.6** Effaith net trosglwyddiadau gyda MEGs eraill yw gostyngiad o £517k, sy'n cynnwys y trosglwyddiad canlynol dros £250k:

- Trosglwyddo allan £450k o'r Cam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu i'r Cam Gweithredu Costau Staff o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â chostau cyflog cyn staff y Comisiwn Coedwigaeth a drosglwyddodd i Lywodraeth Cymru.

**10.7** Hefyd, cafwyd nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG. Effaith net y rhain yw gostyngiad o £7.900k mewn adnoddau yn sgil trosglwyddiad o adnodd i gyfalaf. Mae tablau'r camau gweithredu'n dangos effaith y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k.

Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoleiddio Newid Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd

- Trosglwyddo allan £941k, gan gynnwys:
  - £736k i Gam Gweithredu Rheoli a Gweithredu Gwelliant Amgylcheddol, yn sgil trosglwyddo cyfrifoldeb dros y gyllideb rhwng y Camau Gweithredu, mewn perthynas â Cynefin, rhaglen sy'n darparu gwaith mewn naw lleoliad ledled Cymru.

Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Deddfwriaeth ynglŷn â'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir, Dŵr a Charthion

- Trosglwyddo allan £4,900k i Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Deddfwriaeth ynglŷn â'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir, Dŵr a Charthion (Cyfalaf) mewn perthynas â throsglwyddiad o adnodd i gyfalaf i alluogi i waith wedi'i gynllunio gael ei wneud ar gynlluniau i leihau'r perygl o lifogydd i gartrefi, busnesau a seilwaith hanfodol.

Cam Gweithredu Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r Rhaglen Caffael Gwastraff

- Trosglwyddiad net allan o £505k, gan gynnwys:
  - £280k i mewn o Gam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu mewn perthynas â chyn weithwyr Asiantaeth yr Amgylchedd

Cymru, a drosglwyddodd i Lywodraeth Cymru er mwyn darparu rhaglenni a oedd gynt yn cael eu darparu gan Asiantaeth yr Amgylchedd; a

- £785k allan mewn perthynas ag arbedion sydd wedi'u hailalinio i reoli pwysau costau mewn mannau eraill o fewn y MEG.

Cam Gweithredu Rheoli a Gweithredu Gwelliant Amgylcheddol

- Trosglwyddo £736k i mewn o'r Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoleiddio Newid Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd mewn perthynas â Cynefin, rhaglen sy'n darparu gwaith mewn naw lleoliad ar draws Cymru.

Cam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu

- Trosglwyddiad net i mewn o £1,982k, gan gynnwys:
  - £280k allan i Gam Gweithredu Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r Rhaglen Caffael Gwastraff mewn perthynas â chyn weithwyr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a drosglwyddodd i Lywodraeth Cymru i ddarparu rhaglenni a oedd gynt yn cael eu darparu gan Asiantaeth yr Amgylchedd; a
  - £2,500k i mewn i gefnogi ymdrechion i ymladd clefyd P.ramorum.

Cam Gweithredu Cefnogi a Gweithredu'r Rhaglen/Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid

- Trosglwyddo i mewn £600k o Gam Gweithredu Rheoli a Gweithredu'r Rhaglen Dileu TB a Chlefydau Endemig Eraill mewn perthynas â newidiadau i strwythur y gyllideb, i wella tryloywder.

Cam Gweithredu Rheoli a Gweithredu'r Rhaglen Dileu TB a Chlefydau Endemig Eraill

- Trosglwyddiad net allan o £850k, gan gynnwys:
  - £600k allan i Gefnogi a Gweithredu'r Rhaglen/Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid mewn perthynas â newidiadau i strwythur y gyllideb, i wella tryloywder; a
  - £250k allan mewn perthynas ag arbedion sydd wedi'u hailalinio i reoli pwysau costau mewn mannau eraill o fewn y MEG.

Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Rhaglenni Cyffredinol ar Amaeth, Bwyd a'r Môr

- Trosglwyddiad net o £2,115k i mewn, gan gynnwys:
  - £2,505k i mewn o Gam Gweithredu Diwallu Anghenion Cymunedau Gwledig a Bodloni'r Prawf o ran camau LIC i osod pob cyllideb sy'n ymwneud â pholisi a rhaglenni cynhwysfawr o dan un Cam Gweithredu;
  - £500k i mewn o Gam Gweinyddu'r PAC a Gwneud Taliadau yn unol â Rheolau'r UE a LICG i ariannu cyhoeddusrwydd/cyfathrebu amaethyddiaeth, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru; a
  - £890k allan mewn perthynas ag arbedion sydd wedi'u hailalinio i reoli pwysau costau mewn mannau eraill o fewn y MEG.

Cam Gweithredu Gweinyddu'r PAC a Gwneud Taliadau yn unol â Rheolau'r UE a LIC

- Trosglwyddiad net allan o £209k gan gynnwys:
  - £500k allan i Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Rhaglenni Cyffredinol ar Amaeth, Bwyd a'r Môr, gan gynnwys ariannu cyhoeddusrwydd/cyfathrebu amaethyddiaeth, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru; a

- £291k i mewn i ariannu diwygiadau'r PAC/PIMMS. Hwn ar gael o ganlyniad i nodi arbedion i reoli pwysau costau mewn mannau eraill o fewn y MEG.

Cyflawni'r Rhaglenni o fewn Cam Gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig

- Trosglwyddiad net allan o £4,066k gan gynnwys
- £1,066k allan mewn perthynas ag arbedion sydd wedi'u hailalinio i reoli pwysau costau mewn mannau eraill o fewn y MEG; a
- £3,000k allan i Gam Gweithredu Gweinyddu'r PAC a Gwneud Taliadau yn unol â Rheolau'r UE a LlC (Cyfalaf) mewn perthynas ag adnodd i gefnogi'r newidiadau TGCh y mae eu hangen o ganlyniad i'r newidiadau i daliadau uniongyrchol i ffermwyr yn dilyn yr adolygiad diweddaraf o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Hwn ar gael o ganlyniad i alw is na'r disgwyl yn y Cynllun Datblygu Gwledig.

Camau Gweithredu LlC i Ddiwallu Anghenion Cymunedau Gwledig a Bodloni'r Prawf Gwledig

- Trosglwyddo allan £2,505k i Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Rhaglenni Cyffredinol ar Amaeth, Bwyd a'r Môr i symud pob cyllideb sy'n ymwneud â rhaglenni cynhwysfawr o dan un Cam Gweithredu.

Cam Gweithredu Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod o Gymru

- Trosglwyddo i mewn £400k i ariannu Hybu Cig Cymru wrth sicrhau twf o ran maint a gwerth i allforion cig o Gymru. Hwn ar gael o ganlyniad i nodi arbedion i reoli pwysau costau mewn mannau eraill o fewn y MEG.

## Newidiadau i Gyfalaf

**10.8** Cafwyd nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG. Effaith net y rhain yw cynnydd o £7.900k mewn cyfalaf yn sgil trosglwyddiad o adnodd i gyfalaf. Mae tablau'r camau gweithredu'n dangos effaith y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k.

Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Rhaglenni Cynhwysfawr ar Ddatblygu Cynaliadwy a'r Amgylchedd

- Trosglwyddo £541k i mewn o Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoleiddio Newid Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd i gynorthwyo'r prosiect Gwaith yng Nglyn Ebwy.

Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoleiddio Newid Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd

- Trosglwyddiad net o £3,925k allan mewn perthynas ag arbedion sydd wedi'u hailalinio i reoli pwysau costau mewn mannau eraill o fewn y MEG, gan gynnwys y trosglwyddiadau canlynol dros £250k:
  - £541k i Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a
  - Rhaglenni Cyffredinol ar Ddatblygu Cynaliadwy a'r Amgylchedd;
  - £385k i Gam Gweithredu Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r Rhaglen Caffael Gwastraff;
  - £2.155k i Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Rhaglenni Cyffredinol ar Amaeth, Bwyd a'r Môr; a
  - £800k i Gam Gweithredu Darparu'r Rhaglenni o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig.

Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Deddfwriaeth ynglŷn â'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir, Dŵr a Charthion

- Trosglwyddo £4,900k i mewn o'r Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Deddfwriaeth ynglŷn â'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir, Dŵr a Charthion (Adnodd) mewn perthynas â throsglwyddiad o adnodd i gyfalaf i alluogi i waith wedi'i gynllunio gael ei wneud ar gynlluniau i leihau'r perygl o lifogydd i gartrefi, busnesau a seilwaith hanfodol.

Cam Gweithredu Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r Rhaglen Caffael Gwastraff

- Trosglwyddo £385k i mewn o Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoleiddio Newid Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd i gefnogi'r rhaglen newid cydweithredol ac i helpu awdurdodau lleol i wella'u perfformiad a bodloni targedau ailgylchu statudol yn y dyfodol.

Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Rhaglenni Cyffredinol ar Amaeth, Bwyd a'r Môr

- Trosglwyddo £2,155k i mewn o Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoleiddio Newid Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd, gan gynnwys £2,055k i gefnogi'r cynllun Ffermwyr Ifanc.

Cam Gweithredu Gweinyddu'r PAC a Gwneud Taliadau yn unol â Rheolau'r UE a LlC

- Trosglwyddo £3,000k i mewn o'r Cam Gweithredu Cyflawni Rhaglenni o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig (Adnodd) mewn

perthynas â throsglwyddiad o adnodd i gyfalaf i gynorthwyo â'r newidiadau TGCh sy'n ofynnol yn sgil y newidiadau i daliadau uniongyrchol i ffermwyr yn dilyn yr adolygiad diweddaraf o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Cam Gweithredu Cyflawni'r Rhaglenni o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig

- Trosglwyddo £800k i mewn o Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoleiddio Newid Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd i ariannu RPW Ar-lein.

### Tabl 10.1 – Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant Cyfoeth Naturiol a Bwyd

| DEL | £000oedd Adnoddau 2013-14 | | | £000oedd Cyfalaf 2013-14 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb[21] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[22] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd | 118,778 | -8,278 | 110,500 | 71,368 | 9,693 | 81,061 |
| Yr Amgylchedd | 87,783 | 6,600 | 94,383 | 795 | 0 | 795 |
| Cynllunio | 1,136 | 29 | 1,165 | - | - | - |
| Gwarchod a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid | 38,895 | -9,958 | 28,937 | - | - | - |
| Sylfaen Dystiolaeth | - | - | - | 38 | 0 | 38 |
| Amaethyddiaeth a Bwyd | 80,686 | -10,995 | 69,691 | 14,423 | 5,999 | 20,422 |
| **Cyfanswm DEL** | **327,278** | **-22,602** | **304,676** | **86,624** | **15,692** | **102,316** |
| **AME** | | | | | | |
| Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu | 0 | 3,600 | 3,600 | - | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **327,278** | **-19,002** | **308,276** | **86,624** | **15,692** | **102,316** |



21 Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.
22 Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.

## 11. Tai ac Adfywio

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**11.1** Cafwyd cynnydd net yn y DEL Tai ac Adfywio o £38,388k, gan gynnwys gostyngiad mewn Adnoddau o £3,312k a chynnydd mewn Cyfalaf o £41,700k.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**11.2** Mae’r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol wedi cynyddu i £2,000k i adlewyrchu’r hyn a gyflwynwyd i Drysorlys Ei Mawrhydi ym mis Rhagfyr 2013.

### Trosglwyddiadau Llywodraeth y DU

**11.3** Trosglwyddwyd £1,450k i mewn i Gam Gweithredu Adfywio o Drysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas â chyfran Cymru o’r Gronfa Gymunedol Arfordirol.

### Newidiadau i Adnoddau

**11.4** Cafwyd trosglwyddiad i Gronfeydd wrth Gefn o £4,762k, fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiadau canlynol:

- £972k o Gam Gweithredu Adfywio;
- £440k o Gam Gweithredu Datblygu Polisi Cynllunio, yr Arolygiaeth Gynllunio a Rheoleiddio;
- £3,200k o Gam Gweithredu Cynyddu’r Cyflenwad a’r Dewis o Dai Fforddiadwy;
- £128k o Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi; a
- £22k o Gam Gweithredu Byw’n Annibynnol.

**11.5** Gwnaed nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG. Mae effaith net y rhain yn niwtral. Mae tablau'r camau gweithredu'n dangos effaith y rhain ar bob

Cam Gweithredu.  Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k.

Cam Gweithredu Digartrefedd

- Trosglwyddiad net i mewn o £1,300k i greu Cynllun Taliadau Dewisol Tai i helpu i liniaru effaith newidiadau Diwygio Lles Llywodraeth y DU yng Nghymru, gan gynnwys:
    - £400k o Gam Gweithredu Cefnogi Pobl;
    - £600k o Gam Gweithredu Adfywio; a
    - £300k o Gam Gweithredu Datblygu Polisi Cynllunio, yr Arolygiaeth Gynllunio a Rheoleiddio.

Cam Gweithredu Cefnogi Pobl

- Trosglwyddo allan £400k i Gam Gweithredu Digartrefedd, mewn perthynas ag arbedion sydd wedi'u hailalinio i greu Cynllun Taliadau Dewisol ar gyfer Tai i helpu i liniaru effaith Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU yng Nghymru.

Cam Gweithredu Adfywio

- Trosglwyddo allan £600k i Gam Gweithredu Digartrefedd mewn perthynas ag arbedion sydd wedi'u hailalinio i greu Cynllun Taliadau Dewisol ar gyfer Tai i helpu i liniaru effaith Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU yng Nghymru.

Cam Gweithredu Datblygu Polisi Cynllunio, yr Arolygiaeth Gynllunio a Rheoleiddio

- Trosglwyddo £300k allan i Gam Gweithredu Digartrefedd mewn perthynas ag arbedion sydd wedi'u hailalinio i greu Cynllun Taliadau

Dewisol ar gyfer Tai i helpu i liniaru effaith Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU yng Nghymru.

### Newidiadau i Gyfalaf

**11.6** Cafwyd cyfanswm trosglwyddiad o £41,500k o Gronfeydd wrth Gefn gan gynnwys:

- £34,500k i Gam Gweithredu Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad ar gyfer Cynllun Cymorth i Brynu Cymru;
- £5,000k i'r Cam Gweithredu Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy i sicrhau rhwng 60 a 100 o dai newydd fforddiadwy a chreu neu gefnogi mwy na 100 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu, yn ogystal ag arwain at fanteision economaidd a chymdeithasol tymor hir; a
- £2,000k i Gam Gweithredu Adfywio mewn perthynas ag arian trafodion ariannol i gyflymu'r gwaith o gyflwyno Ffordd Gyswllt newydd Ynys y Barri fel rhan o'r cynllun adfywio strategol ehangach.

**11.7** Cafwyd nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG. Mae effaith net y trosglwyddiadau hyn yn niwtral. Mae tablau'r camau gweithredu'n dangos effaith y rhan ar bob Cam Gweithredu. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k.

Cam Gweithredu Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy

- Trosglwyddiad i mewn o £3,946k i roi mwy o gymorth ar gyfer tai fforddiadwy, gan gynnwys:
  - £1,300k o Gam Gweithredu Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel; a
  - £2,646k o Gam Gweithredu Adfywio.

Cam Gweithredu Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel

- Trosglwyddo allan £1,300k i Gam Gweithredu Cynydddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy, mewn perthynas ag arbedion sydd wedi'u hailalinio i roi rhagor o gymorth.

Cam Gweithredu Adfywio

- Trosglwyddo allan £2,646k i Gam Gweithredu Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy, mewn perthynas ag arbedion sydd wedi'u hailalinio i roi rhagor o gymorth ar gyfer cynlluniau sy'n gysylltiedig â thai.

## Tabl 11.1 – Tai ac Adfywio

| DEL | £000oedd | | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau 2013-14 | | | Cyfalaf 2013-14 | | |
| | Cyllideb[23] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[24] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Polisi Tai | 150,736 | 683 | 151,419 | 11,641 | 0 | 11,641 |
| Cartrefi a Lleoedd | 17,295 | -3,255 | 14,040 | 278,384 | 36,700 | 320,084 |
| Cynllunio | 7,874 | -740 | 7,134 | - | - | - |
| **Cyfanswm DEL** | **175,905** | **-3,312** | **172,593** | **290,025** | **41,700** | **331,725** |
| **AME** | | | | | | |
| Tai | -71,000 | -2,000 | -73,000 | - | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **104,905** | **-5,312** | **99,593** | **290,025** | **41,700** | **331,725** |

Tudalen 92

[23] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.
[24] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.

## 12. Diwylliant a Chwaraeon

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**12.1** Cafwyd cynnydd net yn y DEL Diwylliant a Chwaraeon o £380k, gan gynnwys gostyngiad mewn Adnoddau o £480k a chynnydd mewn Cyfalaf o £860k.

### Newidiadau i Adnoddau

**12.2** Cafwyd trosglwyddiad i Gronfeydd wrth Gefn o £570k fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiad canlynol:

- £270k o Gam Gweithredu Cefnogi a Chynnal Sector Celfyddydau Cryf trwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill; a
- £300k o Gam Gweithredu Darparu Rhaglenni Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Effeithiol.

**12.3** Effaith net trosglwyddiadau gyda MEGs eraill yw cynnydd o £90k. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw addasiadau dros £250k.

**12.4** Hefyd, cafwyd nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG. Mae effaith net y trosglwyddiadau hyn yn niwtral. Mae tablau'r camau gweithredu'n dangos effaith y rhain ar bob Cam Gweithredu. Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiad canlynol dros £250k:

Hyrwyddo Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Amgueddfeydd

**12.5** Cafwyd trosglwyddiad o £390k o Gam Gweithredu Cefnogi a Chynnal Sector Celfyddydau Cryf trwy Gyngor y Celfyddydau ac Eraill fel cyfraniad tuag at gostau ailstrwythuro yn Amgueddfa Cymru.

### Newidiadau i Gyfalaf

**12.6** Cafwyd trosglwyddiad o Gronfeydd wrth Gefn o £1,060k i Gam Gweithredu Hyrwyddo Defnyddio a Dysgu Gydol Oes Trwy Wasanaethau Llyfrgelloedd fel cyfraniad tuag at gostau adfer yn dilyn tân yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**12.7** Effaith net trosglwyddiadau gyda MEGs eraill yw gostyngiad o £200k. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw addasiadau dros £250k.

**12.8** Hefyd, gwnaed nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG. Mae effaith net y trosglwyddiadau hyn yn niwtral. Mae tablau'r camau gweithredu'n dangos effaith y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k.

Hyrwyddo Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Llyfrgelloedd

- Trosglwyddiad net i mewn o £1,125k; gan gynnwys:
  - £625k o Gam Gweithredu Hyrwyddo Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Amgueddfeydd fel cyfraniad tuag at gostau adfer yn dilyn tân yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru; a
  - £500k o Gam Gweithredu Cadw, Gwarchod, Cynnal a Hyrwyddo Mynediad i'r Amgylchedd Hanesyddol fel cyfraniad tuag at gostau adfer yn dilyn tân yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Cam Gweithredu Hyrwyddo Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Amgueddfeydd

- Trosglwyddo allan £625k i Gam Gweithredu Hyrwyddo Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Amgueddfeydd. Hwn ar gael o ganlyniad i ailbroffilio cyfraniad Llywodraeth Cymru at ailddatblygu Sain Ffagan.

Cam Gweithredu Cadw, Gwarchod, Cynnal a Hyrwyddo Mynediad i'r Amgylchedd Hanesyddol

- Trosglwyddo allan £500k i Gam Gweithredu Hyrwyddo Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Llyfrgelloedd. Hwn ar gael o ganlyniad i aildrefnu rhywfaint o’r gwaith cynnal a chadw cyfalaf ar yr henebion.

### Tabl 12.1 – Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant Diwylliant a Chwaraeon

| DEL | £000oedd Adnoddau 2013-14 | | | £000oedd Cyfalaf 2013-14 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb[25] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig | Cyllideb[26] | Newidiadau | Cyllideb Ddiwygiedig |
| Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill | 34,758 | -570 | 34,188 | 355 | 0 | 355 |
| Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 37,578 | 490 | 38,068 | 5,223 | 1,560 | 6,783 |
| Darparu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol | 24,853 | -280 | 24,573 | 345 | 0 | 345 |
| Y cyfryngau a chyhoeddi | 3,926 | 0 | 3,926 | 25 | 0 | 25 |
| Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol | 11,641 | 0 | 11,641 | 5,331 | -700 | 4,631 |
| Y tirlun a hamdden awyr agored | 12,742 | -120 | 12,622 | 2,945 | 0 | 2,945 |
| **Cyfanswm DEL** | **125,498** | **-480** | **125,018** | **14,224** | **860** | **15,084** |
| **AME** | | | | | | |
| Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 2,740 | 0 | 2,740 | - | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **128,238** | **-480** | **127,758** | **14,224** | **860** | **15,084** |

[25] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.
[26] Ffigurau'r Gyllideb adeg cymeradwyo Cynnig y Gyllideb Atodol ym mis Gorffennaf 2013.

## 13. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**13.1** Cafwyd gostyngiad yn DEL Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu o £15,410k gan gynnwys gostyngiad mewn Adnoddau o £15,239k a gostyngiad mewn Cyfalaf o £171k.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**13.2** Mae'r Gyllideb AME wedi gostwng £78k i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer ymddeol yn gynnar.

### Trosglwyddiadau Llywodraeth y DU

**13.3** Trosglwyddwyd £42k i Gam Gweithredu Tribiwnlysoedd o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â diddymu'r Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd.

### Newidiadau i Adnoddau

**13.4** Effaith net trosglwyddiadau gyda Chronfeydd wrth Gefn yw gostyngiad o £4.754k, gan gynnwys y trosglwyddiadau canlynol:

- Trosglwyddiad i Gronfeydd wrth Gefn o £7,254k fel cyfraniad i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y trosglwyddiadau canlynol:
  - £2,748k allan o Gam Gweithredu Gweinyddu Cyffredinol;
  - £1,500k allan o Gam Gweithredu Hwyluso Llywodraeth;
  - £2,612k allan o Gam Gweithredu Arian Cyfatebol;
  - £156k allan o Gam Gweithredu Gwybodaeth Ddaearyddol;
  - £87k allan o Gam Gweithredu Digwyddiadau a Chyfathrebu Corfforaethol;
  - £70k allan o Gam Gweithredu Ymchwil Economaidd;
  - £60k allan o Gam Gweithredu Gwerth Cymru; a
  - £21k allan o Gam Gweithredu Penodiadau Cyhoeddus.

- £2,500k i mewn i Gam Gweithredu Taliadau Cyhoeddus am gynnydd mewn dibrisiant a thaliadau amharu yn erbyn asedau gweinyddol.

**13.5** Effaith net trosglwyddiadau gyda MEGs eraill yw gostyngiad o £9,527k, sy'n cynnwys yr addasiadau canlynol dros £250k:

- Trosglwyddo allan £12,224k o Gam Gweithredu Buddsoddi i Arbed i Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â chynlluniau Buddsoddi i Arbed. Mae hyn yn cynnwys £7,432k tuag at becyn ariannu o £150,000k a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid ym mis Hydref 2013 i fodloni galwadau newydd a'r pwysau cydnabyddedig ar wasanaethau sy'n deillio o Adolygiad Francis;
- Trosglwyddo i mewn £1,014k i Gam Gweithredu Ad-dalu Buddsoddiadau Buddsoddi i Arbed o Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ad-dalu buddsoddiadau blaenorol;
- Trosglwyddo i mewn £450k i Gam Gweithredu Costau Staff o Gam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu o fewn y MEG Cyfoeth Naturiol a Bwyd mewn perthynas â chostau tâl cyn staff y Comisiwn Coedwigaeth a drosglwyddodd i Lywodraeth Cymru; a
- Trosglwyddiad net i mewn o £1,166k o Gam Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u targedu o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys:
  - £547k i mewn i Gam Gweithredu Costau Staff am gostau rhedeg yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH); a
  - £619k i mewn i Gam Gweithredu Academi Wales (Cam Gweithredu PSMW gynt) ar gyfer costau gweithredol yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH).

**13.6** Cafwyd nifer o drosglwyddiadau hefyd o fewn y MEG, ac effaith net y rhain yw gostyngiad mewn adnoddau o £1,000k oherwydd trosglwyddiad

